PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 357 | MAWRTH 2013










# Anrhydedd i Matthew

Cynhaliwyd seremoni syml ond urddasol iawn yn Neuadd Gyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, prynhawn dydd Gwener, Chwefror 28ain. Seremoni i gyflwyno Rhyddid Anrhydeddus Sir Geredigion i Matthew Wilson. Dyma'r tro cyntaf i unigolyn gael ei anrhydeddu yn y ffordd yma gan Geredigion.

Mae Matthew, a fagwyd ym Mhenrhyn-coch yn aelod o'r lluoedd arfog. Yn 2012 tra ar ddyletswydd yn Afghanistan, bu Matthew yn ddewr iawn yn achub un o'i gyd filwyr tra roeddynt yn wynebu gosodiad llym ac yntau ei hunan wedi ei anafu. Am ei ddewrder enillodd Matthew y Groes Filwrol gyda chlod mawr.

Yn y llun gwelir Matthew wedi'r seremoni gyda'r Cynghorwr Sir dros Drefeurig, Mr Dai Mason, ynghyd â Mrs Edwina Davies, Cadeirydd Cyngor Cymuned Trefeurig a chyd gynghorwraig Mrs Gwenan Price.





Yr awdures Caryl Lewis yn diddanu yn Llyfrgell Tref Aberystwyth - gweler t.15



Llun: Tim Jones

Ann Davies, Rhiwfelen, Goginan, enillodd gadair Eisteddfod Swyddffynnon - (gweler t.5)

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Bryn Roberts**
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 46 Bryncastell ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Ebrill

**Deunydd i law: Ebrill 5 | Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 18**

**MAWRTH 21** Nos Iau Theatr Bara Caws yn cyflwyno Hwyliau'n codi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30
Tocynnau: Falyri Jenkins 832560

**MAWRTH 23** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 24** Pnawn Sul Helfa Wyau yn Ysgol Mynach gan Gylch Meithrin Pen-llwyn rhwng 3.00-5.00 £3 i blant, croeso i bawb'.

**26 MAWRTH** Nos Fawrth Talwrn y Beirdd yn cael ei recordio ym Methlehem, Llandre Y 2 dîm fydd Ffair Rhos a Penllyn. Bydd recordio yn cychwyn am 7.15

**MAWRTH 30** Pnawn Sadwrn Te Pasg yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 1.30 pm – 3.30 pm. Croeso cynnes.

**EBRILL 11** Pnawn Te prynhawn a thynnu tocyn raffl yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 3.00 i ennill cwilt a ddechreuwyd gan Mrs. Vera Lloyd. Elw tuag at Papur Sain y Deillion. Byddwn hefyd yn trosglwyddo cwiltiau, blancedi a chapiau i'r prosiect Linus . Mynediad £1. Croeso cynnes i bawb.

### CIC

Ar yr 21ain o Chwefror fe gasglodd aelodau CIC lond trol o fwydydd i'w rhoi i 'Stordy'r Jiwbilî' sy'n darprau bwyd i bobl leol Aberystwyth sydd mewn argyfwng. Diolch i aelodau CIC am eu gwaith caled yn casglu'r bwydydd. Cofiwch, ar yr 21ain o Fawrth fe fyddwn yn cael parti i ddathlu'r Pasg. Fe fydd y clwb yn ailddechrau ar ôl y gwyliau ar y 25ain o Ebrill. Edrychaf ymlaen at eich gweld.

Eleri Barder

### Dewch i Ganu'r Meseia

Mae Cymdeithas Gorawl Aberystwyth yn eich gwahodd i 'Dewch i Ganu'r Meseia' yng Nghanolfan Morlan ddydd Sadwrn 6 Ebrill. Cynhelir ymarfer am 2 o'r gloch ac yna'r perfformiad fin nos am 7.30 o'r gloch. Yr unawdwyr fydd Camilla Von Messenbach, Deborah MacIntyre, Gregory Vearey-Roberts a Kees Huysmans. Cyfeilir gan Branwen Evans, Nicholas Davies a Joe Sansbury, a'r arweinydd fydd Michael Lansdon. Bydd copïau ar gael ond os oes gennych gopi dewch â hwnnw gyda chi. Croeso i bawb ddod i ganu neu i wrando – hyd yn oed os nad ydych wedi canu rhywbeth fel hyn o'r blaen ond bod arnoch awydd rhoi cynnig arni! Mynediad drwy raglen, £5 – ar gael wrth y drws – manylion pellach oddi wrth June Wilson 01974 272476.

Annwyl olygydd,
Darllenais gyda pheth pryder am gynlluniau aelodau 'r Clwb Pêl Droed i ehangu eu hadeiladau a'u hadnoddau oherwydd ofnaf y bydd hyn yn lleihau y lleoedd parcio sydd ar gael yn y maes ei hun - ac fel y gwyr trigolion Glanceulan, y mae nifer y ceir sydd yn cael eu parcio bob ochr i'r ffordd,gan gynnwys y pafin, wrth fynediad y stad eisoes yn peri trafferth ac yn debygol iawn o achosi damwain.

Yn gywir iawn,
Lona Jones
Glan Ceulan, Penrhyn-coch

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

y tincer

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Chwefror 2013:

£25 (Rhif 79) Wendy Reynolds, 63 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 107) John Hughes, Pen-cwm, Bow Street
£10 (Rhif 117) Tom Davies, Tyncwm, Capel Dewi
Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn **Mercher Chwefror 20**.


Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod. Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Iona Bailey, teipyddes *y Tincer*, ar farwolaeth ei nai - Harri Rattray - mab Wendy ei chwaer iau. Bu'n meddyliau gyda Derek a Wendy a'r teulu ar adeg drist yn eu bywyd.


**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.


**RHODDION**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Cymuned y Borth - £50
Cyngor Cymuned Trefeurig - £250
Sue Hughes, Penrhyn-coch - £10
Robert a Delyth Jenkins, Bow Street - £10

Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer



## 20 MLYNEDD YN OL

**Mawrth 1993**

**Tynnu yma i lawr...**
Dymchwelwyd adeilad Capel Dewi (MC) rhwng 27 Chwefror a Dydd Gŵyl Ddewi. Trist iawn oedd gweld yr adeilad yn cael ei lorio ar ddydd ein nawddsant. Tristwch peth oedd gweld y trawstiau yn cael eu dymchwel ar y Sul. Byddai'r hen saint wedi gwaredu rhag clywed y fath beth. Ni fuasent hwy wedi breuddwydio codi'r adeilad ar y Sul. Arwydd o'r amserau.

Codwyd y capel tua 1810 gyda digon o le i 200 o bobl i eistedd ynddo. Yn ôl cyfrifiad anghydffurfiol 1850 yr oedd 142 yn mynychu'r Ysgol Sul ar ddydd y cyfrifiad, 332 yn gwrando ar y bregeth yn y prynhawn a 210 yn mynychu cwrdd gweddi yno yn y nos. Arferai rhwng 152 a 169 fynychu'r Ysgol Sul yn ôl y blaenor a atebai'r holiadur, John Davies, Cefen Faenor.

Yn ôl Ystadegau Anghydffurfiol 1905 yr oedd gwerth yr adeilad yn £950. Yr oedd yno dri blaenor yn 1905, 61 o gymunwyr ac 19 o wrandawyr, saith athro Ysgol Sul a 51 o ddisgyblion. Yr oedd cyfanswm y casgliadau y flwyddyn honno yn £57-12-0.

Bu'n rhaid i Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd gau'r capel ychydig flynyddoedd yn ôl oherwydd cyflwr yr adeiladau.

Capel Dewi – diwedd trist a hynny ar y Sul a Dydd Gŵyl Dewi.
(O Dincer Mawrth 1983)
**Yn ôl Blwyddlyfr Henaduriaeth Gogledd Aberteifi roedd 20 aelod yng Nghapel Dewi ddiwedd 1990 pan unodd y gynulleidfa â Saron, Llanbadarn.**


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angen-rhedirwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Y Tincer ar dâp**
Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu.
Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

# LLANDRE

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad a Betty Williams, Greenbank, Lón Glanfred a Cis Jones, Bron y Garn a'r teulu oll a'r farwolaeth eu chwaer Gwen Pugh, Tregerddan, Bow Street, mis diwethaf.

### BANC BRO - Clwb 50

*Enillwyr Mawrth*
1 £30 Huw Ceiriog, Nant-y-mynydd
2 £20 Jane Owen, Clos-y-ceiliog
3 £10 Siwan Griffiths, Coed-y-Glyn
Mae'r drws yn dal ar agor i aelodau newydd i ymuno drwy dalu £2 y mis. Yn sgîl llwyddiant y Clwb mae pob ceiniog newydd erbyn hyn yn incwm ychwanegol i'r Banc Bro fuddsoddi mewn gweithgareddau cymunedol. Cysylltwch â'r Trysorydd David England, Pant-y-glyn, Llandre 01970 828693 daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

### Merched y Wawr

I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni gwahoddwyd y Gangen i ymuno â Changen Aberystwyth. Roedd y noson yng ngofal Eleri Roberts ac yn ymuno â hi oedd Trefor Puw, Trefenter ac Anwen Roberts ac Eleri Jones o Gapel Seion. Mewn awyrgylch gynnes a chroesawgar, mwynhaodd y gynulleidfa amrywiaeth o ganu traddodiadol, canu gwerin a cherdd dant gyda'r pedwar artist yn serennu yn eu tro, serch hynny roedd lleisiau'r unigolion yn plethu mor hyfryd gyda'i gilydd yn ddeuawdau, triawd a phedwarawd. Cafwyd datganiad arbennig o 'Colli Iaith' fydd yn aros yn y cof am amser a chan gofio bod cryn ddathlu wedi bod yn ddiweddar i'n hatgoffa o ddigwyddiadau a phrotest Pont Trefechan roedd y dewis o gerddoriaeth a barddoniaeth yn bwrpasol ac ystyrlon. Cyn troi am adref fe'n gwahoddwyd i ymuno â'r Gangen i fwynhau lluniaeth hardd a phaned - a sgwrs hamddenol i roi'r byd yn ei le!

## YN EISIAU

**ar gyfer Medi 2013**

Trefnydd Busnes i'r Tincer
Am fwy o fanylion cysyllter â'r Ysgrifennydd

### Llongyfarchiadau

Ddiwedd 2012 bu i Gwion Llŷr, Tre Medd, ennill y cyfle i greu ffilm fer ar y thema 'Cariad Cyntaf' mewn cystadleuaeth ar y cyd rhwng Gŵyl Ffilm Ffresh ac S4C. Cystadleuaeth oedd hon gyda'r bwriad i gefnogi pum gwneuthurwyr ffilm ifanc i gynhyrchu ffilm fer, broffesiynol ei naws ac yna rhoi cyfle iddynt i ddarlledu'r gwaith gorffenedig. Nos Wener, 22 Chwefror ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam cafwyd cyfle i gyfarfod enillwyr eraill y gystadleuaeth ac i fynychu 'premier' arbennig o'r pum ffilm ac er nad oedd carped coch na siampén ar gael, cafwyd gwefr o weld dehongliad Gwion o'i gariad cyntaf ar y sgrîn fawr. Bydd cyfle i bawb weld y ffilmiau gorffenedig gan iddynt gael eu darlledu yn eu tro pob nos Iau ar raglen S4C 'Y Lle' o Chwefror 28 ymlaen. Llongyfarchiadau mawr i ti.

### Côr Cymru 2013

Llongyfarchiadau i Efa Edwards, Bancyreithin, aelod o Gôr y Waun Ddyfal a fu'n llwyddiannus i fynd trwyddo i rownd derfynol Côr Cymru ym mis Ebrill.

## TREFTADAETH LLANDRE RHAGLEN 2013

**28 Mawrth**
Yr ochr ysgafn o gadair y deintydd
Illtyd Griffiths

**25 Ebrill**
Agweddau ar hanes
gogledd Ceredigion Gwyn Jenkins

**Digwyddiad / Ymweliad yr Haf - manylion i ddilyn**

**26 Medi**
Seintiau, pererindod a chyfanheddu mewn Gwledydd Celtaidd
Jonathan Wooding

**31 Hydref**
Cŵn defaid Cymru
Erwyd Howells

**28 Tachwedd**
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Ffilmiau

Cynhelir cyfarfodydd fel arfer yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30 yh

Aelodau (£5 tanysgrifiad) - mynediad am ddim
£2 y cyfarfod i bawb arall

Ysgrifennydd: Roger Haggar, Sycamores, Llandre, SY24 5BX

*"Y gwyliau rydych wedi'u gohirio ers blynyddoedd" Peidiwch ag oedi rhagor!*

**Patagonia :::: Gwlad y Cewri**

Pobl - Tir - Iaith - Hanes - Traddodiad - Dathlu - Difyrrwch

Y trefnwyr mwyaf profiadol - yr unig rai sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn y Wladfa.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Elvey MacDonald, Haulfan, Maes Carrog, Llanrhystud, Ceredigion. SY23 5AL
**01974 202052 | e-bost: elveymac1@btinternet.com**

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Aled, Nia a Iestyn Jones, Cysgod y Graig, ar farwolaeth mam-gu Aled, sef Gwen Pugh yn Bow Street yn ddiweddar.

### Cadair Eisteddfodol

Llongyfarchiadai i Ann Davies, Rhiwfelen, ar ennill y gadair yn Eisteddfod Swyddffynnon. Fe fu Ann yn cystadlu yn ei hieuenctid ac yn ddiweddar mae wedi ail gydio yn y cystadlu. 'Atgof' oedd testun y delyneg ac roedd Ann yn gwerthfawrogi y feirniadaeth a dderbyniodd gan y beirniad - Mair Wyn, Glanaman. Cafodd wobr o bres a hefyd cadair fach i'w chadw gan mai y tro cyntaf iddi ennill y gystadleuaeth. Pob lwc iddi yn y gystadleuaeth nesaf.

# TREFEURIG

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Manon (Trawsnant gynt) a Dafydd Williams, Aberteifi, ar enedigaeth merch fach - Alaw Fflur, ganol Chwefror; chwaer fach i Elain.

### Cofion

Anfonwn ein cofion at Alun Hughes, Isfryn, Cwmerfyn, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforus - roedd yn dda ei weld adref am gyfnod tra'n dathlu ei ben blwydd yn ddiweddar.



Angharad Fychan a'i ffrindiau yn canu mewn digwyddiad Gŵyl Ddewi ym Morlan ddechrau'r mis.

# MADOG / DEWI / CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
**2.00**
**Mawrth**
24 John Tudno Williams
31 (Sul y Pasg) 10.00 Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn Bugail
**Ebrill**
7 Gordon MacDonald
14 Adrian Williams
21 Bugail
28 Aled Lewis Evans

### Cyflwyno ffon i Dywysydd Parêd Gŵyl Ddewi cyntaf Aberystwyth

Cyflwynwyd ffon o eiddo Hywel Evans, y cerfiwr ffyn o Gapel Dewi i Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney ym Mharêd Cyntaf Gŵyl Ddewi Aberystwyth ar Fawrth 1af. Mae cyflwyno ffyn fel arwydd o barch a gwerthfawrogiad rhywun yn draddodiad yng Ngwlad y Basg ac roedd Sion Jobbins, Cadeirydd y Parêd am fabwysiadu'r traddodiad i Gymru. Fe'i cyflwynwyd i Mered fel 'Tywysydd' y Parêd. Pob blwyddyn bydd y Trefnwyr yn dewis person lleol sydd wedi gwneud cyfraniad fawr i'r Gymraeg a diwylliant Cymru i fod yn Dywysydd ar y Parêd. Mae'r anrhydedd gyntaf yn mynd i Mered. Mae'r Tywysydd yn cael cadw y ffon.

Bob blwyddyn bydd y Tywysydd yn gwisgo sash sydd wedi ei lunio a'i chreu'n arbennig gan Caroline Goodband o'r Borth. Caiff ei enw ei wnïo ar y sash a'i basio o flwyddyn i flwyddyn.


**Gwesty'r Llew Du**
**Black Lion Hotel**
Talybont, Ceredigion, SY24 5ER
Bwyty a Bar Newydd!
Cinio 12 - 2.30
Dau gwrs am £10 y person
Mercher i Sadwrn
Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn
Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9
Galwch heibio!
01970 832 555
www.gwestyllewdu.com




### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Nest ac Eirwyn Jones, Felin Hen ar farwolaeth mam Nest, Mrs Catherine Lloyd Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin.

### Diolch

Dymuna Eirian Hughes, Lluest Fach ddiolch o galon am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen blwydd arbennig.


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**
- Arddangosfa o waith gan brosiect celf Plas Lluest (5 Mawrth-22 Ebrill)
- C21 yn Morlan (7.30, 13 Mawrth a 27 Mawrth)
- Caethiwed Branwen (7.30, 13 Mawrth). Tocynnau: £5/£4
- Rhaghysbys: 25 Ebrill – noson pan fydd Lyn Ebenezer a Dafydd Morgan Lewis yn llunio ac yn trafod eu dewis nhw ar gyfer Rhestr Llyfr y Flwyddyn

Manylion llawn ar wefan Morlan: www.morlan.org.uk
**CROESO CYNNES I BAWB!**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
**Mawrth**
24 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog
31 10.30 Oedfa Sul y Pasg Gweinidog
**Ebrill**
7 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
14 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
21 2.30 Oedfa bregeth Beti Griffiths
28 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Mawrth, 10 a 24 Ebrill. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Diolch

Dymuna Sue Hughes, 47 Ger-y-llan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a cymdogion am anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar achlysur ei phen blwydd yn 60 oed. Diolch pawb!

### Gŵyl Bêl-droed

Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul 6ed a 7fed o Ebrill bydd bwrlwm enfawr ar Gae Baker pan fydd Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch o dan adain Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn cynnal ei Gŵyl Bêl-droed Gyntaf ar gyfer pêldroedwyr ifanc o 5/6 oed i fyny at 16 oed.

Cynhelir yr Ŵyl er cof am ddau o hoelion wyth y Clwb Pêl-droed a phentref Penrhyn-coch, sef Eric ac Arthur Thomas. Roedd pawb yn adnabod y ddau ac yn gwybod am eu gweithgarwch dros y blynyddoedd yn y pentref ac ni allwn wedi meddwl am neb a fyddai'n haeddu'r clod yn fwy. Roeddynt yn gefnogol i bopeth ac fe fyddent yn mwynhau gweld y plant ifanc yn cymryd rhan. Ar y dydd Sadwrn bydd adrannau o dan 7 oed yn yr ysgol, ac o dan 11 a dan 14 ar Gae Baker. Ar y dydd Sul bydd adrannau o dan 9 oed, o dan 12 oed ac o dan 16 hefyd ar Gae Baker.

Gobeithiwn am ddiwrnodau llawn hwyl a siawns i weld brwdfrydedd timau o ardal Ceredigion a thu hwnt i'r ffiniau, gyda rhai eisioes wedi rhoi eu henwau gerbron.

Dewch i gefnogi - bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn y pafiliwn a phrydau mwy yn y Clwb Pêl-droed fel arfer.

Bydd Raffl yn cael ei gwerthu yn ystod y dydd ac Ocsiwn ac Adloniant tua'r hwyr ar y nos Sadwrn.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Kevin Jenkins ar 01970 820 115 neu 07896 704 909.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Iwan a Nerys Roberts, Garn Wen, ar enedigaeth merch fach - Mari Fflur - fore Sul 10fed Mawrth, chwaer i Iestyn.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Max Jenkins, Ger-y-llan, a ddathlodd ei ben blwydd yn 90 oed dydd Gwener 8fed Mawrth.

### RAY Ceredigion

Project chwarae plant yw RAY Ceredigion sydd yn cynyddu o fis i fis. Dechreuwyd yn 2005 darparu sesiynau chwarae mynediad agored ar draws sir Ceredigion, ond erbyn hyn rydym yn cynnig nifer o wasanaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni o amgylch y sir.

Fe fyddwn yn dod i faes chwarae Penrhyn-coch yn wythnosol rhwng 4yh a 6yh ar ddydd Gwener yn ein fan sydd yn llawn adnoddau, deunyddiau a gweithgareddau i'r plant gael hwyl di-ri wrth chwarae gyda ein pethau o dan oruchwyliaeth ein gweithwyr chwarae cymwysedig a phroffesiynol.

Mae croeso cynnes iawn I blant o unrhyw oedran a gallu i fynychu'r sesiynau chwarae hyn sydd yn helpu plant I ddatblygu yn gorfforol, creadigol, cymdeithasol ac emosiynol.

Yn ychwanegol i'r sesiynau chwarae rydym yn cynnig hyfforddiant amddiffyn plant a gwaith chwarae, ysgolion glan môr a hefyd ein stordy sgrap newydd sydd yn llawn adnoddau a deunyddiau celf a chrefft rhad sydd ar agor drwy Dydd Mercher ac unrhyw adeg arall drwy drefniant. Yn rhan o'r stordy sgrap, fe ddarparwn weithdai celf a chrefft. Cynigwn un gweithdy celf a chrefft am ddim I bob mudiad. Am ragor o wybodaeth am unrhyw beth cysylltwch â Helen Lewis, Swyddog Cyswllt Cymuned RAY Ceredigion ar 01545 570686.

### Mari Strachan yng Nghymdeithas y Penrhyn

Cafwyd noson hynod ddifyr ar 20 Chwefror yng nghwmni yr awdures Mari Strachan sydd yn byw ym Mhen-uwch ac wrthi yn ysgrifennu ei thrydedd nofel ar hyn o bryd. Siaradodd am y broses o ysgrifennu a'r dylanwadau bore oes fu arni cyn darllen enghreifftiau o'i dwy nofel *The Earth Hums in B Flat* a *Blow on a deadman's embers* (y ddwy wedi eu cyhoeddi gan Canongate) a rhoi cyfle i'r gynulleidfa ofyn cwestiynau.

Fe'i magwyd yn Harlech ac nid oedd yn cofio amser pan nad oedd yn darllen. Soniodd am ddylanwad ei hathrawes Saesneg Enid Jones - fu yn ddylanwad hefyd ar yr awdur Phillip Pulman. Roedd Enid Jones newydd farw - a byddai yn mynychu ei hangladd drannoeth. Roedd yr ysfa i ysgrifennu yn gryf yn Mari - ar ôl








graddio o Brifysgol Caerdydd a chymhwyso yn llyfrgellydd siartredig bu'n gweithio mewn amrywiaeth o lyfrgelloedd yn Lloegr o rai academaidd i gyhoeddus o rai carchar i ysgol. Cafodd ei derbyn ar gwrs Ysgrifennu Creadigol arlein ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion lle cafodd MA (gydag anrhydedd) yn 2007. Rhoddodd hyn i hyder iddi a dysgu iddi sut i werthfawrogi wrth ddarllen.

Yn ôl Mari roedd yna dri pheth oedd yn rhaid bod yn glir yn y meddwl cyn dechrau ysgrifennu.

1 Roedd yn rhaid adnabod y prif gymeriad yn dda - gwybod sut mae'n meddwl a siarad; ei (g)olwg a beth ddigwyddith iddo/i. Nid oedd yn cynllunio ymlaen.

2 Roedd rhaid cael ymdeimlad o le - gwybod yn lle y seiliwyd y gwaith. Roedd ei dwy nofel wedi eu gosod yn Harlech ac fe ddigwyddodd hynny yn naturiol wrth iddi ysgrifennu.

3 Amser y stori. Roedd ganddi ddiddordeb mewn hanes - fe astudiodd y pwnc yn y Brifysgol. Teimlai fod y gorffennol yn taflu goleuni ar y presennol. Golygai hynny wneud ymchwil i'r cyfnod - ond ar ôl dweud hynny mae ei chyfrol nesaf wedi ei seilio 500 mlynedd yn y dyfodol.

Eglurodd fel yr oedd salwch meddwl yn ei diddori ac fel oedd yn newid personoliaeth rhywun a'i fod yn treiddio i mewn i'w gwaith. Roedd ei Chymreictod yn golygu tipyn iddi hefyd ac roedd wedi ceisio dangos trwy gyfrwng y Saesneg mai Cymraeg oedd iaith naturiol ei chymeriadau - darllenodd ddarnau i egluro hyn.

Pan ddaeth yn amser cwestiynau atebodd ar bwysigrwydd teitlau ei llyfrau iddi ac esboniodd am y camau sy'n digwydd wrth gyflwyno llawysgrif i gyhoeddwr. Roedd ei chyfrol gyntaf wedi gwerthu 50,000 copi yn yr argraffiadau Saesneg ac wedi ei chyfieithu i ddeuddeg iaith yn cynnwys Twrceg a Tsieinëg - dangosodd engheifftiau o gloriau y cyfrolau.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau y 14eg o Chwefror croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd, Mair Evans. Aethpwyd ymlaen efo'r busnes arferol o fynd trwy'r ohebiaeth ddaeth i law. Cydymdeimlwyd ag Elizabeth Evans ar golli ei mam; llongyfarchwyd Judith Morris am ennill y cwis yn Neuadd yr Eglwys efo'i thîm o Horeb; a diolchwyd i dîm Merched y Wawr am gymryd rhan hefyd. Dymunwyd pen blwydd hapus i Sue Hughes ar achlysur ei phen blwydd arbennig ar y 27ain o Chwefror.

Yna ar ôl hyn oll croesawodd ein llywydd ein gŵr gwadd, sef Emyr Evans sydd yn gweithio i Ymddiriedolaeth Byd Natur Maldwyn. Roedd gan ein llywydd dipyn o hanes Emyr a oedd wedi bod yn y wasg yn ddiweddar. Fe ddangosodd i ni luniau gwych a dweud yr hanes am ei amser yn gwylio'r gweilch yn mynd a dod ym Mro Dyfi yn 2012. Gwelwyd pâr o weilch yn dod yn ôl ar ôl ymfudo ac yn gwneud eu nyth. Gwelwyd tri wy yn y nyth ond ar ôl i'r cywion ymddangos death llifogydd mis Mehefin ac yn anffodus dim ond un cyw a orchfygodd y tywydd garw. Gan fod pob aderyn yn cael eu henwi ar ôl enwau afonydd, galwyd y cyw bach yn "Ceulan". Wedi hyn cawsom ei weld amser iddo ei hun ymfudo. Diddorol dros ben oedd hyn. Dywedodd Emyr fod yna adegau cyffrous iawn weithiau. Ac wrth gwrs ar ôl i'r adar hyn ymfudo does dim sicrwydd beth ddigwyddith yn eu hanes. Beth bynnag, cawsom weld Ceulan yn mynd o'i gartref genedigol un diwrnod. Treuliwyd noson ddiddorol yng nghwmni Emyr a'i adar. Diolchwyd iddo yn swyddogol gan Judith Morris a bu tipyn o siarad am yr adar dros gwpanaid. Roedd ein hysgrifennydd, Sharon Jones, sydd â diddordeb mawr yn y gweilch wedi dod â llun 'Ceulan' yr oedd wedi ei wneud mewn croesbwyth yn 2012 ac wedi ei roi mewn ffrâm. Llun oedd o waith hyfryd. Fe dynnwyd y raffl fisol ac fe aeth pawb tua thre ar ôl noson wych.





Potiau blodau wnaeth Brownies Penrhyn-coch ar gyfer Gŵyl Ddewi.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu y diweddar Bernard Ingham, Dolhelyg, Penrhyn-coch a fu farw yn ddiweddar. Hefyd â theulu y diweddar Mr Jarvis, Ger-y-llan.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gwyneira Marshall sydd yn cael triniaeth yn yr ysbyty.

i Elsie Morgan sydd wedi cael triniaeth ar ei llygad.

ac i Dolly Davies, Bryntirion, ar ôl triniaeth mewn ysbyty ym Manceinion.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Egryn Evans a'r teulu, Glan Ceulan, a'r teulu ar farwolaeth sydyn nai ganol y mis.



**Lluniau'r Carnifal**
Mae Sharon Jones, Maes Seilo, ar ran Pwyllgor Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch yn casglu hen luniau o'r carnifal a gynhaliwyd yn y pentref yn flynyddol rhwng 1963 a 1993. Mae nifer ohonynt ar Grŵp Facebook a gobeithiwn y bydd rhai ar wefan Trefeurig yn y dyfodol.

Dyma dair enghraifft. Os oes gennych chi hen luniau byddai Sharon yn falch o'u gweld.

### Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cofiwch am ein heisteddfod ar y 26/27 o Ebrill. Dowch yn llu i'n cefnogi, naill ai i gystadlu neu i'r gynulleidfa. Gallwn eich sicrhau cewch wledd i'w chofio. **Rhaglenni ar gael oddi wrth yr Ysgrifennydd** Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth, Penrhyn-coch, Ceredigion, SY23 3XH (01970 820642) neu trwy e-bost o: Rhoshelyg@btinternet.com. Hefyd ar wefan Trefeurig. www.trefeurig.org.org/cymdeithasau-eisteddfod.php



Dr Huw Martin Thomas, Ger-y-llan yn cyflwyno cadair hardd a rhodd o £50 er cof am ei rieni - Martin a Gwenda Thomas i Eirwen Hughes, Cadeirydd a Mairwen Jones, Ysgrifennydd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Bydd y gadair yn wobr am gerdd heb fod dros 50 o linellau ar y testun "Perthynas. Dyddiad cau: 8 Ebrill.

### Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Wendy Reynolds, Ger-y-llan ar ennill mewn cystadleuaeth am y wisg Gymreig orau mewn noson Gŵyl Ddewi gyda arweinyddion Geidio Ceredigion. Diolch i Mairwen Jones am y dillad.

### Banc bwyd

Hyd at y Pasg, bydd Horeb yn gosod bocs yn y capel er mwyn derbyn rhoddion o fwyd i gyflwyno i'r Banc Bwyd ym Mhenparcau a gwelir rhestr o'r bwydydd sydd eu hangen ar gefn y dudalen hon. Felly os ydych yn dymuno, dewch â'ch cyfraniad i'r capel o hyn tan Sul y Pasg ac fe wnawn ni drosglwyddo'r cyfan i Stordy'r Jwbilî ym Mhenparcau.

Bwydydd sych ag oes hir, (o leiaf tri mis) mewn tun, pecyn neu jar.

Bwydydd mewn Tun: Cigoedd (Ham neu Corned Beef yn arbennig); Pysgod; Llysiau; Ffa pob; Cawl; Ffrwythau; Pwdin; Cwstard

Bwydydd mewn Jar: Coffi; Sawsiau Coginio; Jam; Marmalêd

Bwydydd mewn Pecyn: Pasta, Reis, Nwdls, Grawnfwyd (Weetabix yn arbennig); Cawl; Saws Pasta; Bisgedi; Cacennau; Llaeth UHT; Te; Siwgr; Sudd; Ffrwythau

Eitemau eraill: Papur Tŷ Bach; Cewynnau i Fabanod; Hancesi Papur; Bwyd Ci; Bwyd Cath.


Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

y tincer
ytincer@googlemail.com


GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

TACSI EDDIE
Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.



# Eisteddfod CALAN MAI

## Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

**Nos Fercher, Mai 1af 2013** am 5 o'r gloch

## Y Cystadlaethau

*Eisteddfod gyfyngedig i blant, myfyrwyr ac oedolion cylch Aberystwyth (hynny yw o Daliesin yn y gogledd i Lanrystud yn y de a Phonterwyd yn y Dwyrain*

1. **Canu unigol i blant bl 5 a 6 –** Gwobr: £30 i'w rannu
2. **Llefaru unigol i blant bl 4 ac iau** – Gwobr: £30 i'w rannu
3. **Canu unigol i blant blynyddoedd 4 ac iau –** Gwobr: £30 i'w rannu
4. **Llefaru unigol i blant blynyddoedd 5 a 6** – Gwobr: £30 i'w rannu

5. **Cystadleuaeth Sgen Ti Dalent**
Cystadleuaeth i unigolion neu grwpiau **dan 16 oed**. Gwahoddir cystadleuwyr i wneud unrhyw beth i ddiddanu cynulleidfa am ddim hwy na 4 munud (gall fod yn unrhyw fath o ganu, dawnsio, dweud jôcs, gwneud triciau, actio, llefaru, ac yn y blaen) Caniateir hyd at 3 munud i baratoi'r llwyfan os oes angen.
Gwobr: £200 i'w rannu
6. **Bwyta bisged siocled heb ddefnyddio'r dwylo**
Gwobr: £10 i'r bwytäwr cyflymaf
7. **Ensemble lleisiol (3-8 aelod)**
O leiaf tri llais gwahanol. Digyfeiliant. Ni chaniateir arweinydd.
Gwobr: £100 i'w rannu
8. **Ensemble offerynnol (3-8 aelod)**
Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd.Gwobr: £100 i'w rannu
9. **Cystadleuaeth i bâr.** Un i ddarllen darn a roddir ar y pryd, a'r llall i wneud y synau/symudiadau. Gwobr: £50.
10. **Unawd dros 18 oed**
Gwobr: 1af: £100 a £100 arall i'w rannu
11. **Sgetsh dim hwy na 5 munud.**
Caniateir 3 munud ychwanegol i osod y llwyfan.
Gwobr: £100 i'w rannu
12. **Cystadleuaeth Sgen Ti Dalent?**
I unigolion neu grwpiau **dros 16 oed**. Gwahoddir cystadleuwyr i wneud unrhyw beth i ddiddanu cynulleidfa am ddim hwy na 4 munud (gall fod yn unrhyw fath o ganu, dawnsio, dweud jôcs, gwneud triciau, actio, llefaru, ac yn y blaen). Caniateir hyd at 3 munud i baratoi'r llwyfan os oes angen. Gwobr: £200 i'w rannu
13. **Cystadleuaeth deuawd oed 12-26**. Hunan ddewisiad. Geiriau gwreiddiol Cymraeg neu gyfieithiad i'r Gymraeg. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yw hon a chaniateir i ddeuawdau sy'n ennill mewn dwy eisteddfod leol (a dwy yn unig) rhwng Medi 2012 a Gorffennaf 2013 fynd ymlaen i gystadlu ar y gystadleuaeth hon yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych am wobrau o £150, £100 a £50. Gwobr: 1af £50; a £50 arall i'w rannu
14. **Côr (unrhyw nifer o leisiau) – dau ddarn.**
Gwobr: 1af: £200 (a £200 arall i'w rannu.

**Rhaid cofrestru ar gyfer pob cystadleuaeth llwyfan erbyn 23 Ebrill. Copiau o flaen llaw i'r cyfeilydd: Lona Phillips, Glyndŵr, Abermagwr, SY23 4AR, 01974 261710**

## Cystadlaethau Gwaith Cartref

1. **Trefniant blodau yn dylunio unrhyw bennill i blant.**
(Ar sylfaen 20"x20"). Dowch a'ch trefniant i'r Morlan erbyn 3 o'r gloch ar Fai 1af. Gellir eu casglu ar ddiwedd yr eisteddfod neu ar Fai 2ail rhwng 10 a 3. Gwobr: £50
2. **Erthygl Papur Bro gan Ddysgwyr, unrhyw destun.**
(Y dysgwyr i nodi eu lefel wrth ymgeisio).
Gwobr: £50 i'w rannu
3. **Erthygl Papur Bro, unrhyw destun**
Gwobr: £50 i'w rannu
4. Limrig i gynnwys y llinell:
"Peth diflas yw tyfu yn hen" *neu*
"'Roedd hon yn Eisteddfod a hanner"
Gwobr: 1af: £10
5. **Ffotograff – Thema: Aberystwyth**
3 Categori: a) oed cynradd, b) uwchradd, c) oedolion). Gwobr o £10 i enillydd pob un o'r tri chategori.
6. **Ffoto a chapsiwn Cymraeg** – Thema: Cymreictod
Cystadleuaeth i ddysgwyr (oedolion). Gwobr £10
7. **Darn o gelf gan unigolyn mewn ysgol gynradd** – Thema: Dathlu. Dim mwy mewn maint na 1m x1m x1m.
Gwobr o £50 i'w rannu
8. **Darn o gelf gan unigolion mewn ysgol uwchradd.**
Thema: Calan Mai. Dim mwy mewn maint na 1m x1m x 1m.
Gwobr o £50 i'w rannu
9. **Darn o lenyddiaeth i oed cynradd: Teitl 'Aberystwyth'**
(Gall fod yn stori yn seiliedig mewn lleoliad yn y dre, yn ddarn o farddoniaeth, traethawd, deialog, ayb). Gwobr o £50 i'w rannu
10. **Darn o lenyddiaeth i oed uwchradd:**
Teitl 'Aberystwyth'
(Gall fod yn stori yn seiliedig mewn lleoliad yn y dre, yn ddarn o farddoniaeth, traethawd, deialog, ayb). Gwobr o £50 i'w rannu
11. **Darn o lenyddiaeth i rai dros 65**
Hanes rhywbeth newydd yn cyrraedd y cartref e.e. teledu, tŷ bach, fridj, cyfrifiadur, meicrodon... Gwobr o £50 i'w rannu
12. **Darn o gelf gan oedolyn. Thema: Agored**
Gwobr o £50 i'w rannu
13. **Darn o lenyddiaeth** (rhyddiaith neu farddoniaeth)
Gan fyfyriwr coleg neu brifysgol. Hyd at 3,000 gair.
Thema: Lleisiau. Gwobr o £50 i'w rannu

**Ysgrifenyddion:**
Mrs Rhian Phillips a Mrs Velvor Raw-Rees, Ysgol Plascrug, Aberystwyth SY23 1HL;
Rhif ffôn symudol Velvor: 07968979333
(gellir cysylltu â'r Ysgrifenyddion ac anfon gwaith cartref un ai drwy'r post i Ysgol Plascrug, neu ar yr e-bost aberystwyth@steddfota.org
**erbyn 23 Ebrill, 2013**

Fel rhan o'r Eisteddfod cynhelir
**Cystadleuaeth RocAber**
Nos Wener, Ebrill 26,
am 7.30 o'r gloch
yng Nghanolfan Arad Goch

mae'r gystadleuaeth hon yn agored i grwpiau o Geredigion gyfan




Rhestr Testunau ar gael o **www.steddfota.org**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**
**Mawrth**
24 5.00 Gweinidog
31 (Sul y Pasg) 10.00 Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn Bugail
**Ebrill**
7 10.00 Bugail (Cymun)
14 5.00 Bugail
21 10.00 Gwyn Davies
28 5.00 Judith Morris



Sion ac Ania Cylch Meithrin Pen-llwyn

### Cylch Meithrin Pen-llwyn Dydd Gŵyl Ddewi

Cawsom fore llawn hwyl a lliw ar Fawrth 1af gyda phlant y Cylch yn gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig a chael gwledd o fwyd traddodiadol Cymreig. Diolch Miss Tracy, Miss Jools a Miss Shirley am gael blasu bara a menyn Cymreig, caws Caerffili, bara brith a pice ar y maen. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at sesiwn arlunio gyda'r arlunydd talentog, Ruth Jên, ymweld â Sali Mali yn Pentrebach i ddathlu Diwrnod y Llyfr a chynnal ein Helfa Wyau yn Ysgol Mynach ar ddiwedd y mis.





### Canlyniadau Clwb 200

**Ionawr**
1af - Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor
2il - Rhodri Davies, Gwalia, Llywernog, Ponterwyd
3ydd - Gwynn Lewis, Gyfarllwyd, Ponterwyd
4ydd - Sian Evans, Deilyn, Cefnllwyd, Capel Dewi

**Chwefror**
1af - Carwyn a Gethin Davies, Cynon Fawr, Llan-y-Creuddyn
2il - John Kelsey, Smithy House, Abermagwr
3ydd - Elizabeth Kensler, Ochrfawr, Ystumtuen
4ydd - Gill Fathers, Hafod y Glyn, Cwmrheidol

### Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd yr uchod yn eglwys Dewi Sant ar y cyntaf o Fawrth. Eleni fe baratowyd y rhaglen gan Chwiorydd Cristnogol Ffrainc. Arweinwyd y cyfarfod gan Mrs Iris Richards, a chafwyd anerchiad bendithiol gan Mrs Ann Mason Davies, ar y thema "Bum yn ddieithr a rhoesoch i mi groeso" Cymerwyd rhan hefyd, gan gyfeillion Capel Bangor a'r cylch. Paratowyd paned wedi'r cyfarfod gan chwiorydd yr eglwys.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Liz a Mike Collison Dolcniw, a'r cysylltiadau oll, ar golli tad Liz yn ddiweddar, sef Mr John James Davies, a fu yn y gorffennol yn rhedeg y Gogerddan Arms, ond cyn ei farwolaeth, 'roedd yng Nghartref Gofal Hafan y Waun. Hefyd â Katy Hoole, Eithinog, ar golli ewythr yn gynamserol yn ddiweddar.

### Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Noson Grempog ar Nos Fawrth Ynyd yn Neuadd yr Eglwys. Cawsom grempogau hyfyd a blasus gan y cogyddion. Gwnaed hwy gan Lawrence a Jean Cock, Garth a Helen Hughes, Gwynfor a Llinos Jones. Dilynwyd gyda'r adloniant fel a ganlyn: cawsom eitemau hyfryd gan yr Unawdydd, Rebecca Jewell heb anghofio y cyfeilydd dawnus David. Y ddau o gyfeiriad Llangwyryfon. Wedyn cawsom Noson Siôn a Siân dan arweiniad medrus Dai Jones, Llanilar. Cymerwyd rhan gan Dei a Nancy Evans, Garth a Helen Hughes, John ac Elizabeth Lewis. Cafwyd cwestiynau diddorol ac hwyliog. Y pâr buddugol oedd Dei a Nancy Evans. Hefyd, cynhaliwyd raffl ar y noson gyda llu o wobrau hyfryd. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa gref yn bresennol, a phawb wedi mwynhau. Diolch i bawb a gyfrannodd, a hynny mewn gwahanol ffyrdd. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben.

### Croeso Mr Morris

Ar ddiwrnod heulog 2il o Fawrth, daeth cynulleidfa ynghyd i sefydlu a chroesawu Y Parchedig Wyn Rhys Morris, yn weinidog ar eglwys Bresbyteraidd Pen-llwyn.

Cafwyd gwasanaeth hyfryd, dan arweiniad Mr John Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parchedig Roger Ellis Humphreys, a'r Parchedig Nicholas Bee, a chyflwynwyd y gweinidog ar ran Gofalaeth y Garn gan Mr John Leeding.

Yna cafwyd cyflwyniad plant Ysgol Sul Pen-llwyn, yn canu "Dowch chi law yn llaw, gyda Iesu Grist?" Boed hyn fod yn her i ninnau aelodau yr eglwys.

Croesawyd Parchedig Wyn Morris, ar ran eglwys Pen-llwyn, gan Mrs Heulwen Lewis, Cyflwynwyd y siars gan y Parchedig J. E. Wynne Davies. Yna yn dilyn cafwyd ymateb



y gweinidog. Organyddes y gwasanaeth oedd Miss Delyth Davies.

Yna i goroni llawenydd y prynhawn, mwynhawyd te blasus yn y festri, wedi ei roi, a'i baratoi, gan wragedd yr eglwys, a hyfryd oedd cael cymorth yr aelodau ifanc.

Er gwybodaeth, bu capel Pen-llwyn yn ddifugail am dros un mlynedd ar bymtheg, a'r syndod mwyaf yw fod yna ddau "Morris" wedi rhagflaenu a gweinidogaethu yn yr eglwys cyn y Parchedig Wyn Rhys Morris, sef y diweddar Barchedig Maelgwyn Morris, a'r Parchedig Morris Pugh Morris.

Dymunwn pob dymuniad da, a hwylustod, i'n gweinidog newydd, ar ddechreuad ei weinidogaeth, yma ym Mhen-llwyn.

### Bedydd

Gorchwyl cyntaf y Parchedig Wyn Morris, fel ein gweinidog, oedd bedyddio efeilliaid



Elystan a Catrin Evans, Cwmwythig, a hynny ar Fawrth 3ydd gyda eu plant bach eraill Owen ac Ania. Hyfryd oedd clywed y tad a'r fam yn addunedu i ddwyn lan Dafydd John a Dyfrig Lloyd yn y ffydd Gristnogol. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

**Côr y Gorffennol**

Gyda chymaint o sôn yn ddiweddar am Gôr Cymru, daeth Côr Melindwr, Capel Bangor a'r cylch i gof, gyda Mr D. E. Felix yn arweinydd. (1958 – 1960). Diolch i Mr Dei Charles Evans, Typoeth, Cwmrheidol am y llun ac am gofio y rhan fwyaf o enwau aelodau y côr.

**Rhes flaen o'r chwith i'r dde.** Dei Griffiths, Fisher Davies, Dei Ben Davies, Danny Richards, Idris Davies, Dei Charles Evans, D. E. Felix, Mair Jones (pianyddes ) J. O. Morgan, Owen Jones, ? ?



**Rhes Ganol**
Goronwy Owen, Jack Moses Evans, Ellis ? Henry Jones, Edwin Jones, Alun Jenkins, Islwyn Owen, Maldwyn Pugh, ? Tom Ellis, Jack Owen, Dennis Benjamin, Richard Jones.

**Rhes Gefn**
Glyn Vaughan, Edgar ?, Byron Howells, John Chamberlin, Wil Richards, Tom Williams, Danny Evans, ? Stephens, Glyn Jones.




# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**http://www.capelygarn.org/**
*Mawrth*
24 John Tudno Williams
31 (Sul y Pasg) Oedfa'r Ofalaeth Bugail
*Ebrill*
7 Noddfa Roger Ellis Humphreys
14 Adrian Williams
21 Bugail
28 Aled Lewis Evans
**Noddfa**
*Mawrth*
24 Oedfa am 2.00 Gweinidog
29 Oedfa undebol Gwener y Groglith ym Methel, Tal-y-bont am 10.00
31 Oedfa undebol Sul y Pasg ym Methel am 10.00 a 2.00
*Ebrill*
7 10.00 Oedfa undebol yr Ofalaeth; y Garn yn uno
14 5.00 Gweinidog
21 10.00 Trefn lleol
28 5.00 Gweinidog



### Digwyddodd darfu...

Clywyd fod y llwynog wedi bod ar grwydr eto - gwelodd dau un ym Mryn Castell am chwech y nos, yn y biniau chwilio am fwyd.

### Swydd newdd

Dymuniadau gorau i Lois Dafydd, Maes Afallen, sydd newydd ddechrau ar ei swydd newydd fel ymchwilydd gyda chwmni Fflic yng Nghaerdydd.

### Nain a taid eto!

Llongyfarchiadau i Bryn a Meinir Roberts, Brynmeillion, ar ddod yn nain a taid eto! Ganwyd merch fach - Mari Fflur - i Iwan a Nerys bore Sul 10fed Mawrth, chwaer i Iestyn.

### Cyfrol ar werth

Mae copïau o'r gyfrol *Cerddi Dafydd Huws* a gyhoeddwyd gan y teulu er cof am Dafydd ar werth gan Elen Roberts. Pris: £5, a'r elw i gyd at Gymorth Cristnogol.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mared a Gareth yng Nghaerdydd ar enedigaeth Morgan Llew, brawd bach i Ifan a ŵyr i Robert a Delyth Jenkins, Maes Ceiro.

### Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd.

Cynhaliwyd y cyfarfod rhyngenwadol eleni yng Nghapel y Garn ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Cymerwyd rhan gan aelodau o gapel Noddfa, y Garn ac Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn.

Thema'r gwasanaeth oedd "Bûm yn ddieithr a rhoesoch i mi groeso", yn seiliedig ar eiriau o Efengyl Mathew - wedi ei threfnu gan chwiorydd o Ffrainc. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan y Parchg Judith Morris. Diolch iddi am ei gwasanaeth parod, i Miss Kathleen Lewis am gyfeilio, ac i Mrs.Llinos Dafis fel arweinydd a chadeirydd.

Gweiniwyd te yn y festri i ddilyn, wedi ei baratoi gan chwiorydd y Garn. Mrs.Shân Hayward oedd yn gyfrifol am y trefniadau ac am addurno'r capel. Diolch i Shân am ei hymroddiad di-flino drwy'r tymor, ac i bawb a gymerodd ran.

### Oedfa Gŵyl Ddewi

Cynhaliwyd oedfa Gŵyl Ddewi gofalaeth Capel y Garn ar fore Sul, 24 Chwefror. Daeth cynulleidfa dda o gapeli'r ofalaeth, ynghyd ag aelodau o Noddfa, i gydwasanaethu o dan ofal y Parchg Wyn Morris. Roedd rhan gynta'r gwasanaeth dan ofal plant y Garn a Noddfa, a phleser oedd gweld criw mawr wedi dod at ei gilydd. Trefnwyd eitemau a gweithgareddau i'r plant gan Mrs Mair Lewis. Nodwyd enw sawl 'Llan', cafwyd hanes Dewi Sant ar lafar ac mewn llun, a chafodd y gynulleidfa glywed cerddi'n cael eu hadrodd gan y plant hŷn. Roedd graen ar y cyfan, fel arfer, a chafwyd gwasanaeth hyfryd.

### Cofio Gwyneira

Mae hi`n dymor y Gymanfa yng Ngogledd Ceredigion unwaith eto ac wrth i`r rihyrsals ddechrau o ddifrif mae`n chwith meddwl nad yw`r un a wasanaethodd y Gymanfa fel Ysgrifennydd ymroddgar am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain bellach gyda ni, gan i Miss Jane Gwyneira Efans, Yr Efail, Penrhyn-coch, farw`n sydyn ddydd Mawrth yr 16eg o Hydref 2012 yn 88 mlwydd oed, a braint i mi yw cael cyflwyno`r deyrnged hon iddi.

Â`r Efail ym Mhenrhyn-coch y cysylltir enw Gwyneira yn bennaf gan mai yno yng nghwmni ei rhieni, Gwilym a Margaret Evans, a`i brodyr Ieuan, John, Irwel a William, a heb anghofio Elsie ychwaith, yng nghanol berw efail y gof brysur, y tyfodd i fyny. Yno hefyd mewn gwirionedd y treuliodd y rhan helaethaf o`i hoes, a Gwyneira`r Efail oedd hi i`r rhan fwyaf o`i chydnabod. Ac yno yn yr Efail y bu ei thad a`i thad-cu o`i blaen hefyd. Yr oedd y teulu`n aelodau gyda`r Annibynwyr yn Salem Coedgruffydd ac yno y cafodd hi ei bedyddio. Yno hefyd y dechreuodd fynychu`r oedfaon gyda`i rhieni yn ifanc iawn, a mynychu`r Ysgol Sul yn yr Eglwys Wladol ym Mhenrhyn-coch yr un pryd hefyd. Pan ddaeth yn ddigon hen i fynd allan i weithio bu mewn nifer o wahanol swyddi yn Aberystwyth a`r cyffiniau.





Byddai`n sôn llawer am y 'dyddiau da' hynny a dreuliodd gyda`r llaeth ym Mhontllanio ac yn lojio yn Nhregaron ac ar yr adegau hynny pan fyddai`n teimlo braidd yn isel mi fyddai gofyn iddi an beth o hanes y cyfnod hwnnw yn ei sionci ar unwaith! Ac yn y cyfnod yma byddai`n dychwelyd adref yn gyson ar y penwythnos i fynd i Salem. Daeth tro ar fyd iddi pan aeth i weithio yn Abertawe am gyfnod a thra yno mynychai Saron, Gendros. Ar ddechrau`r 50au dychwelodd i Geredigion ac adref i`r Efail ac yno y bu weddill ei dyddiau. Wedi dod yn ôl adref ymaelododd fel aelod, gyda gweddill y teulu, yn Noddfa, Bow Street, neu`r Capel Bach fel yr adnabyddid ef yr adeg hynny, a byth ers hynny bu'n un o hoelion wyth yr achos yno. Ymrodd at waith yr Ysgol Sul yn Noddfa ar unwaith ac yn fuan iawn fe`i penodwyd yn Arolygydd yr Ysgol Sul ac fe ddaliodd at y swydd hyd yn ddiweddar iawn. Golyga hyn ei bod wedi rhoi y rhan helaethaf o 60 mlynedd o wasanaeth i`r Ysgol Sul ac nid gormodiaith yw dweud bod cyfran sylweddol o aelodau Noddfa heddiw yn aelodau oherwydd iddi hi eu trwytho yn y Beibl pan oeddent yn blant.

Tra`n sôn am Noddfa mae`n werth nodi ei bod wedi bod yn organyddes yno am dros 50 mlynedd, yn Ddiacon ers 1975 ac yn Ysgrifennydd o 1961 hyd 2011. Bu`n Ysgrifennydd Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion o 1984 hyd 2011 ac yn ystod y cyfnod hwnnw cyhoeddodd lyfryn bychan yn crynhoi hanes y Gymanfa rhwng 1891 a 1991 ar achlysur dathlu canmlwyddiant y Gymanfa yn 1991. Bu hefyd yn gweithredu fel cydlynnydd Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn ardal Bow Street hyd y diwedd a bu`n weithgar gyda Chymdeithas y Chwiorydd yn lleol a rhanbarthol am flynyddoedd. Dyfarnwyd Medal Gee iddi yn 2008 am ei gwasanaeth a`i ffyddlondeb i`r Ysgol Sul ac i`w Chapel ac mae`n sicr bod hyn wedi bod yn anrhydedd hollol haeddiannol ac yn un yr oedd Gwyneira ein hun yn ei gwerthfawrogi a`i thrysori yn fawr iawn. Pan ychwanegir at hyn oll y sôn am weithleoedd fel Garej Primrose a Garej West Wales, cyfarfodydd fel y Bible Class ym Mhenrhyn-coch a diddordebau fel llythyru, darllen, gwnïo a gwau, olrhain achau a siarad a sgwrsio dyna ni wedi cael cip ar y Gwyneira yr oeddwn i yn adnabod ac ar y Gwyneira fel person mor bendant ei barn yr wyf i yn falch o fod wedi cael y fraint o`i chwmni ar daith bywyd. RHL

### Neuadd Rhydypennau

Ar ól pendroni a phwyllgora cryn dipyn gan fod cyflwr y neuadd bellach yn dirywio, penderfynwyd trefnu 'Penwythnos Peintio gwirfoddol'. Y cam cyntaf oedd hysbysu'r digwyddiad yn Y *Tincer* a disgwyl am ymateb.

Yn dilyn hyn trefnwyd dyddiad i bawb a oedd yn fodlon helpu i gwrdd yn y neuadd fore Sadwrn yr ail o Chwefror dan arweiniad Hywel Ebenezer.

Cafwyd ymateb ardderchog gyda'r neuadd yn fwrlwm o gydweithwyr brwdfrydig ar y dyddiad penodedig. Cyn hir dechreuodd pawb ar y gwaith ac yn fuan iawn gwelwyd gweddnewidiad rhyfeddol i'r neuadd a oedd gynt braidd yn llwm yr olwg.

Hoffai'r Cadeirydd, Richard Gethin a'r Pwyllgor ddiolch yn ddiffuant iawn i'r sawl a fu'n cynnig cymorth dros y ddau benwythnos yn enwedig i Hywel Ebenezer, goruchwyliwr y prosiect. Can' diolch hefyd i ferched y pwyllgor am fwydo'r criw dros y cyfnod gweithio.

Cytunodd pawb fod y broses wedi bod yn un effeithiol ac yn un ddifyr hefyd. Mae'n amlwg fod ysbryd cymdeithasol yr ardal yn fyw ac yn gryf.

Edrychwn ymlaen am noson agored cyn hir i weld y neuadd ar ei newydd wedd.

### Mama Singhs

Os ydych yn byw yng nghanol pentref Bow Street, efallai fod arogleuon hyfryd bwyd Indiaidd wedi taro eich ffroenau a dod â dŵr i'ch dannedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. A'r rheswm? Mae Charlotte a Suzanne Singh, mam a merch, wedi sefydlu busnes coginio bwyd ym Maes Afallen o'r enw Mama Singhs. Enillodd Charlotte, y ferch, radd mewn swoleg o Aberystwyth yn 2012, a pherswadiodd ei mam i ddod i fyw i'r ardal, gan ei bod hi wedi dotio at y lle, a symudodd y ddwy i Bow Street ychydig fisoedd yn ôl. Athrawes wrth ei galwedigaeth yw Suzanne, y fam, a bu'n dysgu celf yn un o ysgolion Bilston ger Wolverhampton. Ond a hithau'n gwirioni ar goginio, dyma dderbyn gwahoddiad ei merch ac ymgartrefu yn Bow Street, gan sefydlu busnes arlwyo ar ddechrau'r flwyddyn hon. Gan fod Suzanne wedi ymddiddori mewn bwydydd Indiaidd er pan oedd hi'n ferch yn ei harddegau, dyma gyfle iddi wireddu ei breuddwyd. Mae Charlotte a Suzanne am sôn am ddau berson yn benodol sydd wedi'u helpu i sefydlu eu busnes newydd. Y cyntaf yw Tony Orme, Rheolwr Mentrau Prifysgol Aberystwyth, a'r ail yw Bronwen Raine, swyddog Cymorth Cychwyn Busnes i Raddedigion, un o'r gwasanaethau a gynigir gan Antur Busnes, sy'n rhan o Antur Teifi.

Yn y gegin brysur defnyddia Suzanne gynnyrch lleol lle mae modd gwneud hynny, er ei bod yn cyfaddef fod dod o hyd i rai cynhwysion sydd wedi'u tyfu yn yr ardal, megis math arbennig o



tsilis, wedi profi'n dipyn o her. Gall pobl archebu eu danteithion – sy'n cynnwys samosas cig neu lysiau, pakora tatws a chyrri cyw iâr – y diwrnod cynt, yna bydd y bwydydd yn cael eu paratoi yn y cartref a'u dosbarthu i'r gweithle. Gobaith Suzanne yw ehangu'r dewis yn fuan iawn, a chynnig seigiau fydd yn cynnwys cig oen lleol. Mae mwy o fanylion ar dudalen Facebook y cwmni, a gallwch flasu'r cynnyrch cartref ar eu stondin ym marchnad ffermwyr Aberystwyth. Nod y ddwy yw cael yr hyn y maen nhw'n ei alw'n *curry shack* deniadol fydd yn cynnig dewis o fwydydd Indiaidd wedi'u paratoi yn y cartref. A chofiwch ddweud gair neu ddau o Gymraeg wrth Charlotte a Suzanne pan fyddwch yn eu gweld, gan eu bod yn awyddus i ddysgu'r iaith. Mae'r ddwy yn fwrlwm o frwdfrydedd dros eu gwaith, felly dymuniadau gorau iddynt â'u menter gyffrous – a blasus.

Mae Mama Singhs yn dosbarthu bwyd ac yn cymryd archebion ar stâd Glanyrafon ar ddyddiau Llun a Mawrth, ac yn nhref Aberystwyth weddill yr wythnos, rhwng 9 a 12.30 p.m.

mama singhs.sch@gmail.com
Ffôn: 01970 828337 / 07769265620

### Merched y Wawr

Estynnodd ein llywydd, Mrs Brenda Jones, groeso i Carwen Fychan a Helen Davies i'n cyfarfod ar nos Lun, 11eg Chwefror. 'Strydoedd y Dre' oedd eu thema. Wel, sôn am noson ddiddorol. Roedd hyd yn oed y rhai a fagwyd yn y dre a'r cyffiniau yn synnu cyn lleied a wyddent am hanes cynnar Aberystwyth. Soniwyd am y castell, yr afonydd a'r caeau ac o ble y tarddodd enwau fel Llangawsai, Tan-y-cae ac Ardwyn. Cawsom hanes dyfodiad y rheilffordd, ac yn sgìl hynny, yr ymwelwyr yn dechrau dod i'r dref yn datblygu fel tref wyliau. Enwau Seisnigaidd a Brenhinol a roddwyd ar y strydoedd bryd hynny. Yna cafwyd hanes datblygiad Penparcau gan Helen. Roedd cryn ddyfalu am leoliad Picadilly, y Beehive a Soho!

Roedd yn amlwg bod Carwen a Helen wedi bod yn chwilota'n eang i gael yr holl wybodaeth yma, ac wrth eu sgwrsio wedi mwynhau eu hunain wrth wneud. Diolchwyd yn fawr iawn iddynt.

Marian a Gweneth oedd yng ngofal y te a Bet oedd enillydd y raffl.

# Y BORTH

### Cerddorol

Llongyfarchiadau i Grady Hassan a Mared Emyr am ennill y cystadlaethau pres a thelyn Blwyddyn 10 a than 19 yn yr Eisteddfod Ranbarthol ym Mhontrhydfendigaid. Pob hwyl yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro.

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth

Yn ôl yr arfer, bu'r Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni eto. Yng Ngwesty'r Maes, Capel Bangor y bu'r gwledda a'r Gŵr a'r Wraig Wadd oedd Mary a John Price o Fachynlleth. Croesawyd hwy atom gan ein Llywydd, Margaret Griffiths, a bu'r ddau wrthi yn ein diddanu gyda storïau am fore oes hyd at y presennol. Diolchwyd iddynt gan y Parchg W. J. Edwards.Ni fydd mwy o gyfarfodydd misol tan fis Hydref, ond mae pawb yn edrych ymlaen at y trip fydd yn mynd ddydd Mercher, 19 Mehefin! enwau i'r ysgrifennydd Llinos Evans

### Genedigaeth

Ganwyd wyres i Diane a Ieuan, Meirion, y Borth. Trydydd plentyn i Sara a Jerimi a chwaer i Harri ac Alanah.



Olivia Fiona Ruby Parker ar 4edd o Ionawr yn Atlanta, Georgia, UDA



Mary a John Price gyda swyddogion y Gymdeithas - David Evans (Trysorydd), Margaret Griffiths (Cadeirydd) a Llinos Evans (Ysgrifennydd).







Cymdeithas Henoed y Borth gydag itemau o Amgueddfa Ceredigion dydd iau Chwefror 21

# CLARACH / LLANGORWEN

### Beiciwr ifanc

Mae Griff Lewis o Broncynfelin, Llangorwen, yn ceisio efelychu ei arwr Bradley Wiggins trwy ddangos ei ddawn fel beiciwr.

Cychwynodd gystadlu ddiwedd y gwanwyn llynedd, ac eisoes gwelwyd adroddiadau yn *Y Tincer* am ei lwyddiant yn rasio ei feic ar y ffordd. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn enillodd Bencampwriaeth Beicio Mynydd Cymru dan 8 oed yng Nghoed y Brenin, Dolgellau – ar ei gynnig cyntaf – ar gwrs technegol anodd , ac yn erbyn nifer o gystadleuwyr profiadol.

Ym mis Medi symudodd Griff i fyny i'r grŵp dan 10 oed yng nghyfres 'Cyclocross' De Cymru, ac er mai ef oedd un o'r ieuengaf yn cystadlu daeth yn ail yn y gyfres o 12 ras. Hefyd cafodd ail safle yng nghystadleuaeth 'Cyclocross' Cymru, ac ail yng nghystadleuaeth Ysgolion Cymru. Ers dechrau'r flwyddyn mae Griff wedi bod yn cystadlu yng nghyfres 'Cyclocross' Gogledd Cymru o dan 12 oed gan ennill y ddwy ras gyntaf, yn y Rhyl ac yn Wrecsam.

Wrth i'r nosweithiau ymestyn fe fydd Griff yn cyfnewid ei olwynion 'cyclocross' am rai rasio ffordd, yn ogystal a chychwyn ymarfer o ddifri ar gyfer cystadleuaeth Beicio Mynydd Cymru dan 10 oed.

Mae llawer o deithio ac ymarfer o flaen y bachgen dawnus yma, ac fel cydnabyddiaeth o'i ymdrech lew mae e' wedi derbyn gwobr fel un o Fabolgampwyr Talentog Elit gan Gyngor Sir Ceredigion. Pob lwc i ti Griff.



# Caryl yn diddanu

Bu'r awdur Caryl Lewis o Goginan yn diddanu criw da o blant o bob oed yn llyfrgell tref Aberystwyth ar brynhawn Iau, 7 Mawrth, fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Gwrandawodd y plant yn astud ar Caryl yn darllen stori hyfryd am y llygoden leiaf yn y byd. Bydd y stori hon, ynghyd â nifer o rai eraill, i'w gweld yn ei chyfrol newydd, *Ar Fferm Sgubor Wen*, Gwasg Gwynedd a fydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan. Roedd pawb oedd yn bresennol yn llongyfarch Caryl yn wresog am gael ei dewis ar yr union brynhawn hwnnw, yn 'Hoff Awdur Cymru' mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Radio Cymru.

y tincer
ytincer@googlemail.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor yn Neuadd Rhydypennau ar nos Iau, 28 Chwefror o dan lywyddiaeth y Cyng. Heulwen Morgan. Sylwyd fod y Neuadd wedi ei phaentio yn chwaethus iawn gan wirfoddolwyr a llongyfarchwyd y pwyllgor a phawb a fu wrth y gwaith.

Mae Maes Chwarae Tegerddan gyda dŵr yn gorlifo i'r ffordd ac i faes parcio y Cartref yn broblem barhaol, ond gobeithir cael sicrhad gan y Brifysgol a'r Adran briodol o IBERS y byddant yn mynd i'r afael â'r mater ar fyrder.

Problem arall yn yr un ardal yw'r fynedfa tuag at y Cartref. Unwaith eto penderfynwyd ysgrifennu llythyr siarp at Gyngor Sir Ceredigion yn tynnu eu sylw at y sefyllfa anfoddhaol a gofyn am ateb pendant.

Disgwylir cael prisiau am y gwahanol fath o offer chwarae i Faes Chwarae Bryncastell erbyn y cyfarfod nesaf. Bwriedir gosod tair mainc newydd yn fuan, un gyferbyn â'r Swyddfa Bost, y llall gerllaw yr ysgol, ond rhaid cael sicrwydd pwy biau'r tir wrth y Cross, Llangorwen cyn gosod yr olaf. Bwriedir trwsio'r ddwy sydd ger Bryncastell.

Mater arwyddion Brynmeillion. Nid mater i'r Cyngor Cymuned yw hwn, sef newid/lliwio neu godi yr arwyddion, na chwaith gosod arwydd "Dim ffordd trwyddo".

Materion gan y Cynghorydd Sir. Dywedodd y Cyng. Paul Hinge fod problem y goryrru ar ffordd South Beach Clarach yn cael blaenoriaeth gan y Cabinet o'r Cyngor Sir. Rhoddodd fanylion am sefyllfa yr ysbytai sydd yng ngofal Hywel Dda a chyhoeddodd fod precept y Cyngor i fyny 2% am y flwyddyn gyfredol. Yr oedd consyrn ganddo am ddatblygiadau ger Fferm Pen-glais a Bryncarnedd (sydd ar ffiniau Tirymynach/Llangorwen), oherwydd culni'r ffordd a bydd yn galw am lwybrau cerdded ar y darn peryglus hwn. Hefyd anogodd y Cyngor i ysgrifennu at berchnogion yr Amlosgfa, yn galw am fwy o le parcio ar gyfer angladdau.

Cynllunio. Cais am godi dau annedd semi ar dir ger Tregerddan. Penderfynwyd cefnogi gwrthwynebiad y preswylwyr lleol, oherwydd byddent yn amharu ar breifatrwydd cefn rhai o'r tai, yn ogystal â phroblem y garthffosiaeth, ac at hynny, eu bod yn cael gosod mewn "twll o le".

Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Mawrth.

# DÔL-Y-BONT

### Gwellhad buan

Ymddiheuriadau i Gareth Morgan, Glenside na gyhoeddwyd y cyfarchion iddo y mis diwethaf. Mae'n braf ei weld yn gwella ar ôl bod am rai diwrnodau yn Ysbyty Bron-glais yn ystod mis Ionawr.

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus yn 70 i Ken Evans, Tynsimdde a ddathlodd ei ben blwydd ar 17 Mawrth.

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Rihyrsals am 7.00
**Mawrth 27** Bethel, Aberystwyth
**Ebrill 10** Capel y Garn
**Ebrill 17** Seion, Aberystwyth
**Ebrill 24** Horeb, Penrhyn-coch
**Mai 8** Capel y Morfa, Aberystwyth

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

**Mai 12 2013**
Capel y Morfa, Aberystwyth
**Arweinydd**: Margaret Daniel
**Organydd**: Mary Jones Morris
10 y bore a 5.30 yr hwyr

## Ymddiheuriadau

Ymddiheurwn am y geiriau YMA O HYD a ymddangosodd yn rhifyn Chwefror o'r Tincer gan achosi penbleth i ddarllenwyr.

Bwriadwyd cynnwys cyhoeddi ystadegau am siaradwyr Cymraeg plwyf Trefeurig ond gan i newyddion am y Clwb Pêl-droed gyrraedd rhoddwyd hwnnw i mewn a gadael y stori am y cyfrifiad allan - heb dynnu y pennawd oddi yna. Mae y pwt stori yn dal ar y wefan http://www.trefeurig.org/index.php

Ymddiheuriadau hefyd am roi llun y tap dŵr ger Panteg ar ei ochr. Gellir gweld hwn hefyd bellach ar wefan Trefeurig - http://www.trefeurig.org/dwrpenrhyn-coch.php

# Colofn Mrs Jones

Gwneuthum benderfyniad y dydd o'r blaen a gweithredu arno. Dechreuais y broses o fabwysiadu cath, wel, a bod yn onest dwy gath; un ddu ac un farmaled. Nid wyf wedi rhoi'r gorau i'r syniad o gadw ci eto pan fyddaf wedi ymddeol a dyna un rheswm paham y pendefynais fabwysiadu dwy gath yn hytrach nac un. Fe all dwy anwybyddu ci yn haws nag un a go brin y sialensiai ci ddwy gath - a bwrw y gwnâi eu sialensio, hyd y gwelaf, y mae gelyniaeth ci a chath fel gelyniaeth mab a mam yng nghyfraith! Digon o brawf chwedlonol i'w fodolaeth ond fawr o brawf yn y byd go iawn.

Ac ar gathod y maged fi. Hwy oedd anifail anwes y teulu er fod gan fy mam awydd ci. Ond dyma un lle - a'r unig le, hyd y gwn i - y rhoddodd fy nhad ei droed i lawr. Cath neu ddim a chathod fu hi. Twm Puw oedd enw fy nghath gyntaf un, gwrcath llwyd golygus fel y cymeriad yn Hwyl a fy nghath i oedd o. Fe âi at unrhyw un am fwyd ond y fi, a fi yn unig, gâi ei fwytho ac yn fy llofft i y cysgai. Bu farw yn un ar ddeg oed rhyw brynhawn Sul ac fe'i claddwyd yn barchus yn yr ardd gefn.

Cath frech oedd y nesaf a gwrcath oedd hwnnw hefyd ac er iddo gael ei alw yn sawl enw dan haul yn ystod ei gyfnod gyda ni, ni chafodd enw ffurfiol ac eithrio Pws er y mynnai Gwynn ei alw yn panngwr breac. Ein mabwysiadu ni wnaeth o, cerdded i'r tŷ yn dalog pan nad oedd ond cath fechan iawn a chyfeirio ei gamrau yn hyderus at y lle tân ac eistedd i lawr. Fe wnaethom ymdrech lew i ddarganfod o le y daeth ond heb unrhyw lwyddiant o gwbl a'i gadw a fu. Ac yr oedd yn gymeriad a hanner, ei arbenigedd oedd bod o dan draed, fel Montmorency, y ci yn Three Men and a Boat, teimlai Pws mai diwrnod wedi ei wastraffu oedd diwrnod heb iddo gael ei regi! Cofiaf un tro faglu ar ei draws wrth ddod i lawr y grisiau ac ymddiheuro iddo a hynny er mawr ddifyrrwch i fy nhad a wyddai yn iawn pwy oedd ar fai mewn gwirionedd. Ond pellhau wnaeth Pws a throi yn wyllt a mynd i fyw ar y cwrs golff. Eto, pan âi un ohonom am dro y ffordd honno, fe'i gwelem ac fe ddeuai atom i ddweud helo yn ddigon cyfeillgar. Ond yr oedd wedi gorffen troi'n wyllt ac ni wn yn y diweddd beth fu ei hanes. Ond fe gafwyd olynydd, cath ddu a gwyn a oedd eisoes wedi ei fedyddio. Dyma'r Wisgi cyntaf a dyma gath a'n rhyfeddodd. Fe ddysgodd agor y ffridj, er enghraifft, a hynny o fewn ychydig ddyddiau i setlo gyda ni.Wrth gwrs, nid oedd hyn yn dderbyniol o gwbl gan ei fod yn dwyn y caws a'r wyau a llyfu'r menyn ond nid yw gweld ffridj a chortyn beindar o'i hamgylch neu, ar dro, fricsen wrth ei drws, yn beth cyffredin iawn ac yr oedd ymwelwyr yn holi...a dydw i ddim yn meddwl fod pawb yn credu mai dyfais gwrth gath oedd hi! Odrwydd arall o'i eiddo oedd ei fod yn medru proffwydo rhew, os byddai yn mewian ar ei ffordd allan ar ei browl olaf am y dydd, fe rewai yn ystod y nos...a gorchymyn i mam lenwi potel ddŵr poeth iddo oedd y miaw mewn difrif. A roedd ganddo ddau odrwydd arall, un oedd mynd i'w wely erbyn hanner nos. Fe gysgai ar y soffa yn y gegin ac os byddem ni yn dal ar ein traed, fe eisteddai ar yr aelwyd a phregethu yn huawdl arnom hyd oni sleifiem bawb i'w wely a'i adael. Ei odrwydd arall oedd fod ganddo hoff rigymau, yr oedd goosey goosey gander yn ennyn grwndi ond fe gaech beltan ar draws eich wyneb am adrodd Jack and Jill...Fe fu farw ar y ffordd, wedi ei daro gan gar, a bu mawr hiraethu amdano.


Ond fe gafwyd olynydd Wisgi arall - cath ddu a gwyn eto ac fe'i bedyddiwyd o fwriad yn y gobaith, am wn i, y byddai clyfrwch ei rhagflaenydd yn syrthio arni. Roedd hi yn annwyl y tu hwnt ond nid oedd fawr yn ei phen hi ond hi fu fyw hwyaf o'r holl gathod, yr oedd yn ddeunaw oed pan fu farw. Fe fyddai yn mynd am dro bob nos ac, weithiau, byddai yn hwyr yn dod adref. Ac fe safai fy nhad ar waelod y dreif yn galw amdani gan swnio yn rêl alcoholig...fe gwynai fy mam am hyn er, fel y dywedodd un tro, fe fyddai llai o ots ganddi petai rhywun yn rhoi potel iddo!

Ac am ran o'i blynyddoedd olaf, fe fu ganddi gyfaill; gwrcath marmaled. Dod o hyd iddo ger y tŷ wedi ei anafu a wneuthum i a mynd ag ef at y fet gan y gwyddwn nad oedd yn perthyn i neb o'm cwmpas i. Credai'r fet ei fod wedi cael ei daflu o gar ac nid oedd dim i'w wneud ond ei gymryd. A daeth ef a Wisgi yn ffrindiau er nad oedd hi yn caniatàu iddo ddod i eistedd ar fy nglin i, dim ond hi oedd yn cael gwneud hynny. Cafodd yntau ei ladd ond fe benderfynais y byddwn rhyw ddydd yn mabwysiadu un arall yr un fath a dyma fi ar wneud......enwi'r 'babis' newydd fydd y job nesaf ac,fel y gŵyr pawb, nid ar chwarae bach y mae enwi cath.

**Geiriau** m(f)abwysiadu – adopt olynydd – successor huawdl – eloquent

# Taith gerdded y mis

## Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn, Dôl-y-bont a Glanfred




**Man dechrau**: Tu ôl capel Bethlehem, neu le cyfleus arall.
**Map**: OS Explorer 213.
**Pellter**: 3.5 milltir. Peth dringo hawdd rhwng yr Eglwys a Cilolwg.

Ewch heibio'r Eglwys a lan drwy'r fynwent ac allan i'r ffordd ar y top ac i'r dde a mynd i'r cornel. Ewch drwy'r iet ac i fyny llwybr cart heibio Cilolwg a throi i'r dde ar y groesffordd. Lawr y lôn goed, croesi'r ffordd o dan bont rheilffordd ac i Dôl-y-bont. Cyn y mynediad i'r maes carafannau fe welwch lwybr ar y dde. Dilynwch hwn dros y sticil a dilyn gwaelodion y caeau nes cyrraedd iet fach sydd yn eich arwain lawr drwy'r coed at faes carafannau ' Riverside'. Troi i'r dde a dilyn y ffordd 'nôl i'r man dechrau.


## Tŷ i'w logi – yn barod nawr!

Tŷ ym Mhenrhyn-coch, 3 ystafell wely, wedi ei ddodrefnu'n llawn, yn awr ar gael i'w logi.

**Llawr cyntaf** – Ystafell fyw, ystafell fwyta (gan gynnwys Soffa, bwrdd bwyta a chadeiriau a theledu), ystafell gawod, pantri a chegin newydd (yn cynnwys cwcer nwy/LPG, oergell, rhewgell, microdon a pheiriant golchi dillad).

**I fyny'r grisiau** – x2 ystafell wely dwbl gyda gwelyau dwbl a wardrob wedi ei osod, a x1 ystafell wely sengl gyda gwely sengl, ac ystafell ymolchi.

**Tu allan** – gardd fawr gyda 'decking', swing i blant, a thŷ gwydr.

**Gwres canolog olew.**
**£650 y mis heb gynnwys biliau**
**Ffoniwch Siân ar 01559 395673/ 07970 551203**


# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 19 Chwefror 2013, yn Neuadd Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Edwina Davies, yn y gadair. Roedd Shân James, Tegwyn Lewis, Richard Owen, Gwenan Price, Jeff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Dai Mason.

Materion yn codi o'r cofnodion. Roedd gwybodaeth wedi ei derbyn oddi wrth y Cyngor Sir ynglŷn â mater y tir ger Tŷ Newydd, Cwmerfyn. Yn fyr, roedd angen caniatâd cynllunio i greu neu newid mynedfa i ffordd dosbarth 3; roedd angen trwydded i greu man croesi i gerbydau dros ymyl ffordd; byddai angen cysylltu ag un o swyddogion y Cyngor i drafod a oedd y ffens newydd wedi ei chodi ar ymyl y ffordd neu a oedd codi'r ffens wedi culhau'r ffordd i bob pwrpas. Penderfynwyd anfon yr wybodaeth a dderbyniwyd ymlaen at berchnogion Tŷ Newydd, ac addawodd y Cynghorydd Sir ymholi ymhellach i'r materion hyn ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor. Mynegodd Jeff Pyne ei bryder am gyflwr y ffordd ger Pen-bont Rhydybeddau, a phenderfynwyd holi'r Cyngor Sir am eu hasesiad risg parthed y ffordd. Yn sgîl hyn, nodwyd fod cyflwr y ffyrdd mewn sawl man yn y gymuned yn wael a nodwyd rhai o'r tyllau mwyaf peryglus, megis y rhai a oedd wedi agor yn ddiweddar ar y bont y tu draw i groeslon Gogerddan. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir am y rhain.

Ceisiadau am nawdd ariannol. Mae'r Cyngor yn ystyried ceisiadau am nawdd ariannol yn flynyddol, ac eleni caniatawyd y ceisiadau a ganlyn: Neuadd y Penrhyn £500; Cymdeithas Cae Chwarae y Penrhyn (Patrasa) £350; Cymdeithas Cae Chwarae Pen-bont £350; Cyfeillion Tregerddan £300; Ambiwlans Awyr Cymru £300; Pêl-droed Ieuenctid y Penrhyn £300; Eisteddfod Penrhyn-coch £250; Y Tincer £250; Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Penrhyn-coch £200; Cylch Meithrin Trefeurig £150; Brownies Penrhyn-coch £150; Cymdeithas yr Ymddeolwyr £150.

Ceisiadau cynllunio. Cais am dŷ ger Rhandir – cais wedi ei dynnu'n ôl; cais am dŷ ger Trysor, Cefn Llwyd – dim gwrthwynebiad.

Hen Ysgol Trefeurig – nodwyd fod yr allweddi bellach wedi eu dychwelyd i'r Cyngor Sir gan na allai'r Grŵp Datblygu fforddio talu'r rhent a ofynnid. Roedd y Cynghorydd Sir wedi mynychu cyfarfodydd yn y Cyngor Sir ynglŷn â'r ysgol, ac nid oedd penderfyniad wedi ei gymryd i werthu'r adeilad hyd yma. Roedd y Grŵp Datblygu yn parhau i weithio ar geisiadau ariannol posib ar gyfer cael nawdd i gadw'r ysgol fel man ar gyfer defnydd y gymuned.

Materion eraill. Nodwyd fod car wedi bod yn agos iawn i daro plentyn bach ger Ysgol y Penrhyn yn ddiweddar oherwydd fod y gyrrwr yn mynd yn rhy gyflym. Penderfynwyd gofyn i'r heddlu fonitro'r sefyllfa yn y parth 20mya er mwyn osgoi digwyddiadau fel hyn.

ytincer@googlemail.com

# Brwydr y Bandiau

Bu dau fand lleol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau C2 Radio Cymru yn ddiweddar. Mae disgyblion Gweriniaeth yn ddisgyblion ym Mhenweddig; arferai dau ohonynt - Rhydian a Garin Fitter fyw ar y ffordd mewn am Benrhyn-coch pan yn fach, ac mae gan y ddau arall - Lowri Ann Evans a Llew gysylltiadau teuluol â Cwrt, Penrhyn-coch.





Yn ôl Rhydian “Rydym ni a Mellt wedi tyfu lan gyda’n gilydd yn Ysgol Penweddig a dyma’r tro cyntaf i ni gystadlu yn eu herbyn nhw mewn cystadleuaeth leol felly mi oedd yn ddiddorol i ni!”

Arferai’r Mellt alw eu hunain yn Y Gwirfoddolwyr ac maent yn ddisgyblion ym Mhenweddig a Pen-glais - gwelir yn y llun Ellis Walker, Pen-bont Rhydybeddau (gitâr), Glyn Rhys-James Llanddeiniol (gitâr a llais), Geraint Friswell Capel Seion (gitâr fas) a Gethin Thomas, Llangwyrfon (drymiau).

‘Roedd y ddau fand yn cystadlu yn rownd rhanbarthol y de-orllewin yn Hermon, ger Crymych ar Chwefror 15fed; y tri beiniaid ar y noson oedd Wyn Jones (Fflach / Ail-Symudiad), Jason Phillips a Molera Awen. Er nad oedd Gweriniaeth yn llwyddiannus eleni, llwyddodd y Mellt i sicrhau eu lle yn y rownd gynderfynol ar Fawrth 12fed.

Dyma sylwadau panelwyr Radio Cymru amdanynt -

Guto Brychan - ‘Mae’r gwaith gitâr yn dda’

Gruff Lynch - ‘Cân dda - un o grwpiau cryfaf yn y gystadleuaeth’.

Elin Fflur’ Un o grwpiau cryfaf y blynyddoedd nesaf.’

Fe fuon nhw yn llwyddiannus eto gan ennill yn erbyn ‘Kizzy Crawford’ a ‘Be Dwi’n Neud ‘Ma’. – byddant yn awr yn mynd ymlaen i Rownd Derfynol Brwydr y Bandiau 2013 gan ymuno â Banditos a’r Ffug ar Ebrill 10fed. Dymuniadau gorau iddynt!

Bydd y grŵp/unigolyn sy’n ennill yn cael:

- cytundeb i recordio Sesiwn i C2 BBC Radio Cymru
- perfformio ym Maes B, Eisteddfod Genedlaethol 2013
- erthygl tudalen lawn yn un o rifynnau’r cylchgrawn *Y Selar*
- sesiwn lluniau hanner diwrnod efo ffotograffydd proffesiynol
- cynnig i chwarae mewn gigs Mentrau Iaith Cymru
- perfformio yng ngŵyl Tafwyl 2013

Mae’r ddau grŵp yn debygol o gystadlu yn Roc Aber ar Ebrill 26 yn Arad Goch.

Lluniau: © C2 BBC Radio Cymru

# Cyfrifiad 2011

Mae’n siwr fod rhan fwyaf o ddarllenwyr *y Tincer* yn gyfarwydd â’r drafodaeth eang fu yn sgîl cyhoeddi ffigurau iaith Gymraeg Cyfrifiad 2011 yn y cyfryngau a thu hwnt. Mae’r cwymp yn y ganran sy’n siarad Cymraeg yng nghadarnleoedd y gorllewin wedi rhoi min ar ddadleuon ynglŷn â’i dyfodol fel iaith gymunedol, ac fe godwyd pryderon am effeithlonrwydd addysg gyfrwng-Cymraeg yn y cymoedd a’r gogledd-ddwyrain.

Ond beth am y sefyllfa yn ein hardal ni? Mae ystadegau manwl wedi eu cyhoeddi bellach, ac at ei gilydd, mae’r Gymraeg yn fwy sefydlog nag ydyw mewn mannau eraill, er gwaetha presenoldeb Prifysgol Aberystwyth gerllaw. Yn 2001, roedd canrannau’r rheiny fedrai siarad Cymraeg yn 42.6 yn ward y Borth (sy’n cynnwys Llandre), 51.6 ym Melindwr, 57.5 yn Nhrefeurig, a 59.9 yn Nhirymynach. Yn ystod y ddegawd ddiwethaf bu cwymp o 2.3% yn Nhirymynach, ond cynnydd bychan (rhwng 0.5% a 1.1%) yng ngweddill y dalgylch. Rhaid bod fymryn yn ofalus cyn dathlu’n ormodol. Mae’r cyfrifiad yn holi hefyd faint mor hyderus y mae pobl yn eu Cymraeg, ac mae’r ganran sy’n medru Cymraeg llafar yn unig, ond ddim yn ei ddefnyddio’n ysgrifenedig, rhywfaint yn uwch na’r cyfartalaedd yn yr ardal hon.

Ar y cyfan, serch hynny, mae tueddiadau ardal *y Tincer* yn fwy cadarnhaol nag ydynt yn llefydd fel Llanarth, Llandysul a rhannau o Aberteifi, ble y gwelwyd cwymp o dros 4% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, a Chastellnewydd Emlyn dros y ffin, lle gwelwyd crebachiad mwy fyth. Pam felly?

Mae rhywfaint o’r esboniad i’w ddarganfod yn y demograffeg. Yn gyffredinol, mae poblogaeth gogledd Ceredigion yn iau, yn fwy dosbarth-canol, ac yn fwy tebyg o weithio yn y sector gyhoeddus, na phobl de a chanolbarth y sir. Os gosodir wardiau Ceredigion mewn tabl yn ôl newid iaith rhwng 2001 a 2011, gellir darganfod ar waelod y rhestr nifer o ardaloedd lle y bu canran uchel o siaradwyr Cymraeg ymlith y to hŷn, megis Llandysul ac Aberteifi. Ar frig y ‘gynghrair’ hon mae Llanfarian a Rhydyfelin (cynnydd o 2.8%) sydd fel ardal *y Tincer* yn ardal lle mae dipyn o bobl yn teithio i weithio yn sefydliadau llywodraethol Aberystwyth. Gellid awgrymu hefyd, o bosib, fod pobl iau sy’n mewnfudo i weithio yn fwy tebygol o fod eisiau dysgu rhywfaint o Gymraeg – i’w ddefnyddio yn eu gwaith yn y sector gyhoeddus, neu i helpu eu plant gyda’u gwaith ysgol – na phobl sy’n symud i Geredigion i ymddeol.

Pa gasgliadau y gellir eu tynnu o hyn, felly? Yn sicr, does dim cysylltiad negyddol i’w weld rhwng adeiladu tai a dirywiad iaith – bu datblygiadau sylweddol yn Llanfarian a Threfeurig yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Mae angen mwy o waith ar rôl addysg yn y darlun, ond yn sicr ymddengys fod cysylltiad â chyflogaeth. Mae cyfleon i weithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, Swyddfeydd y Cynulliad (a ddaeth i Aberystwyth yn lle’r Drenewydd yn sgîl lobïo gan Elin Jones ac eraill) ac asiantaethau cyhoeddus eraill yn denu a chadw Cymry Cymraeg ifanc. Brawychus yw nodi effaith posib toriadau i’r sector gyhoeddus yma, ond awgrymaf hefyd y gall fod potensial i gryfhau’r iaith yn y cylch pe dilynid polisïau i gymreigio cyflogwr mwya’r cylch; y Brifysgol.

**Owen Roberts**

**Canran sy’n gallu siarad Cymraeg yn ardaloedd Ceredigion: cymharu data cyfrifiad 2001 â 2011**

| | % yn gallu siarad Cymraeg | | |
|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | newid (pwynt canran) |
| **Genau’r-glyn** | 56.7 | 57.7 | 0.1 |
| **Melindwr** | 54.1 | 54.7 | 0.6 |
| **Tirymynach** | 59.4 | 54.8 | -4.6 |
| **Trefeurig** | 58.5 | 56.5 | -2.0 |
| **Y Borth** | 36.2 | 32.4 | -3.8 |

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r bechgyn a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar. Cafwyd nifer o gêmau cyffrous tu hwnt yn ystod y dydd a bu'r bechgyn yn dathlu wedi'r cyfan wrth iddynt gyrraedd yr ail safle. Da iawn bois!

Da iawn i Sam, Louis, Dion a Lauren am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau yn y neuadd fwyd y mis hwn. Yn amlwg y maen nhw'n mwynhau'r driniaeth arbennig amser cinio. Llongyfarchiadau!

Yn dathlu hefyd mae Phoebe, Jac, Dion, Rhys a Reece wrth iddyn nhw dderbyn tystysgrifau Disgybl yr Wythnos.

### Dathliadau

Cafwyd diwrnod bendigedig wrth ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi eleni. Bu'r disgyblion yn diddanu siopwyr ym Morrisons yn ystod y bore trwy ganu caneuon Gŵyl Ddewi. Bu rhagor o ddathlu yn ystod yr hwyr wrth i'r disgyblion, rhieni a ffrindiau ddod at ei gilydd i wrando ar gyngerdd gan blant yr ysgol a mwynhau cawl a chân. Diolch arbennig i Mrs Dulcie James am ddod i gynnal adloniant dawnsio gwerin.

### Diwrnod y Llyfr

Hyfryd oedd gweld y disgyblion wedi eu hysbrydoli gan lyfrau ar ddiwrnod y llyfr wrth i bawb ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o'u hoff lyfr.

### Ymweliadau

Cynhaliwyd cyngerdd i Gymdeithas Henoed y Borth yn neuadd y pentref ar Fawrth 7fed fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi'r gymdeithas. Bu'r disgyblion yn canu a darllen fel rhan o'u perfformiad, a bu digon o fwynhau wedyn wrth i'r disgyblion dderbyn gwledd o gacennau, losin a diod a baratowyd gan y gymdeithas. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Gymdeithas yr Henoed am gyflwyno siec i'r ysgol.

Daeth Ysgolion Craig yr Wylfa, Tal-y-bont a Llangynfelyn at ei gilydd unwaith eto ar y 12fed o Fawrth er mwyn gwylio sioe deithiol ail-gylchu a drefnwyd gan y Cyngor Sir. Cafwyd llawer o hwyl gyda chymeriadau'r sioe!











CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL
A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

# O'r Cynulliad – Elin Jones

Yn ddiweddar cefais newyddion da oddi wrth y Gweinidog Busnes Edwina Hart, pan gyhoeddodd yn ddiweddar ei bod yn bwriadu creu Parth Twf Lleol yn Nyffryn Teifi. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y byddai'r ardal yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer dechrau'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn. Rwyf wedi bod yn pwyso ers yn hir i gael Ceredigion yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad band eang cyflym iawn. Oleuaf nawr beth bynnag, bydd rhai rhannau o Geredigion bellach yn elwa yn 2013-2014 tra bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu band eang cyflym iawn i bob ardal erbyn diwedd 2015.

Fis diwethaf yn y Cynulliad, nodais fod yna rhai ysgolion yng Ngheredigion wedi cael eu lleoli ar rwydwaith cefnffyrdd ac mewn rhai achosion mae'r cyflymder yn 40 m.y.a. Mae llawer o rieni a phlant ysgol wedi codi'r mater yma gyda mi ac maent yn credu fod y cyflymder yma yn beryglus ger ysgolion. Roeddwn yn awyddus i gael cefnogaeth y Gweinidog Trafnidiaeth i gael cyflymder o 20 m.y.a. yng nghyffiniau ysgolion ar yr adegau mae ysgolion yn agor a chau. Yn y gorffennol mae hyn wedi bod yn anodd ei gyflawni ar gefnffyrdd megis yr A487 a'r A44. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog Trafnidiaeth wedi cadarnhau y byddai'n edrych yn ffafriol ar geisiadau o'r fath yn y dyfodol. Mae ymgyrch o'r fath yn cael ei gynnal yng Nghapel Bangor ar hyn o bryd ac mi es i yno i'w gefnogi.

Ar ddydd Sadwrn yr 2il o Chwefror, mynychais rali Cymdeithas yr Iaith i nodi 50 mlynedd ers ei sefydlu. Ar y dydd Sul roedd cannoedd o bobl yn bresennol yn y cynhyrchiad theatrig gan Theatr Genedlaethol Cymru i ail-greu protest Pont Trefechan 50 mlynedd yn gynharach. Mi roedd y ddau ddiwrnod yn llwyddiannus iawn.

Newyddion da oedd clywed fod neuadd Llanddewibrefi wedi derbyn £150,000 oddi wrth y Cynulliad er mwyn adnewyddu'r neuadd bentref. Mae'r neuadd yn cael ei ddefnyddio gan wahanol gymunedau yn yr ardal ac mae'r ysgol leol yn elwa llawer drwy gynnal amryw o weithgareddau yno. Rwy'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol ac rwy'n edrych ymlaen at weld y neuadd unwaith y mae'r gwaith wedi ei orffen.

# Myfyrdod y Pasg

Rwy'n ysgrifennu hwn wrth fy nesg yn y Deondy yn Abaty Westminster ac allan o'r ffenest fe welaf blu eira yn syrthio'n ddiog ar do'r tŷ. A gwyntoedd Mawrth yn oer eu min, anodd credu bod y Pasg bron a'n cyrraedd. Ond does dim dwywaith amdani, yma yn yr Abaty mae'r paratoadau ar gyfer â gwasanaethau'r Pasg wedi dechrau'n barod. Fe archebwyd y canghennau palmwydd a'r croesau palmwydd bychan fydd yn cael eu gorymdeithio o amgylch yr eglwys ar Sul y Blodau. Fe anfonwyd cais i ddarllenwyr cyson i wirfoddoli ar gyfer seremoni golchi'r traed ar Ddydd Iau Cablyd. Ac wrth gwrs ar nos Sadwrn y Pasg fe fydd gorchuddion y Garawys sy'n cuddio ysblander euraidd yr Uwch Allor yn cael eu tynnu unwaith eto i ddatgelu'r murluniau odditano.

I rai o'n ffrindiau (hyd yn oed Cristnogion ffyddlon) mae'r holl ddefodau eglwysig yma yn ddieithr ofnadwy. Ond fe ges i fy magu yn nhraddodiadau yr Eglwys yng Nghymru felly er bod y gwasanaethau yma efallai'n fwy urddasol na'r hyn rwy'n eu cofio yn Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth, serch hynny maent yn gyfarwydd i mi. Y prif wahaniaeth yw bod yna dyndra yma nad oedd yn bodoli yn Sant Mair sef y tyndra rhwng yr Abaty fel eglwys weithredol a'i statws fel atynfa i ymwelwyr.

Rwy'n cofio'n glîr bod ymysg y gynulleidfa llynedd ar gyfer y Cymun ar Ddydd y Pasg a gweld crwt ifanc yn aros i gymuno. Ond wrth iddo nesáu at y bara a'r gwin roedd hi'n amlwg bod hyn tu hwnt i'w brofiad a'i ddealltwriaeth a mi gymrodd y bara yn ei law fel petai wedi derbyn sampl o fwyd arferol a sleifiodd n'ôl i'w sedd gyda gwên fuddugoliaethus ar ei wyneb fel petai wedi cyflawni rhyw dwyll. A finnau'n trio



canolbwyntio ar arwyddocád neges y Pasg mi oedd yr olygfa yn fy mhoeni cymaint nes i mi orfod gofyn i'n Caplan, lleian Judith Gray sut oedd hi'n dygymod â'r fath sefyllfa. Gyda'i chalon agored a deallusrwydd sy'n codi o fywyd wedi'i neilltuo at wasanaethu Duw, roedd ei hateb yn wers nad ydw i wedi'i anghofio. 'Non, rwy'n ceisio cofio taw y peth pwysig yw nid sut i ni'n cyflwyno'n hunain mewn gwasanaeth ond sut i ni'n dod ar draws Duw. Wedi'r cyfan pwy a ŵyr pa effaith parhaol y cafodd y gwasanaeth ar y crwt yna? Rwy'n gadael hynny yn nwylo Duw.' Sut bynnag y byddwch chi'n cofnodi'r Pasg rwy'n gobeithio y cewch chi'r cyfle i ddod ar draws Duw.

Daw Dr Non Vaughan-O'Hagan (née Thomas) sy'n Gynorthwy-ydd Personol i Ddeon Abaty Westminster o Aberystwyth - bu ei thad-cu y Parchg David Williams yn reithor Capel Bangor. trwy ganiatad caredig The Dean and Chapter of Westminster

**Non Vaughan-O'Hagan**

Daw Dr Non Vaughan-O'Hagan (née Thomas) sy'n Gynorthwy-ydd Personol i Ddeon Abaty Westminster o Aberystwyth - bu ei thad-cu y Parchg David Williams yn reithor Capel Bangor ca 1961-70. Lluniau © trwy ganiatâd caredig The Dean and Chapter of Westminster





**Geiriau** (g)weithredol – operational d/ddatgelu – reveal tyndra – tension

# Ysgol Pen-llwyn

### Arolwg Estyn

Fe groesawodd yr ysgol dîm o arolygwyr Estyn am bedwar diwrnod yn dechrau ar Ddydd Llun Mawrth y 4ydd. Fel arfer fe weithiodd y plant yn ddiwyd. Edrychwn ymlaen at gyhoeddiad yr adroddiad ar Fai 10fed.

### Diwrnod y Llyfr

Roedd yr ysgol yn fôr o liw ar gyfer Diwrnod y Llyfr gyda nifer o gymeriadau llenyddol yn ein plith. Fel y gwelwch o'r lluniau fe wnaeth y rhieni ymdrech arbennig wrth baratoi gwisgoedd y plant.

### Rhodd o'r Eglwys

Yr ydym fel ysgol yn dra ddiolchgar i'r Eglwys am rodd o £130 a ddaeth i law yn ddiweddar. Mi fydd yn help mawr wrth i ni barhau i fuddsoddi mewn deunyddiau dysgu newydd.

### Gwirfoddoli

Fe fu criw o rieni wrthi'n ddiwyd yn ddiweddar yn gwella yr amgylchedd allanol yn barod i'r Gwanwyn. Yr ydym yn ffodus fel ysgol i gael rhieni ymroddgar sy'n barod iawn i wneud cymwynas a'r ysgol. Da yw gweld y faner werdd yn chwifio wrth y brif fynedfa i'r ysgol erbyn hyn. Mae'r plant wedi cyfarwyddo a'r dasg o godi a gostwng y faner. Ar Ddydd Gŵyl Ddewi fe fu'r faner goch yn chwifio.

### Clwb y Caban

Gyda bron i chwe mis wedi mynd heibio ers lawnsiad y clwb wedi ysgol mae'n rhoi cyfle i nodi sut mae'r fenter hon wedi datblygu. Mae'n cyfarfod am ddwy awr wedi ysgol o Nos Lun i Nos Wener gyda rhieni yn talu £3 am yr awr gyntaf a £5 am y ddwy awr. Mae nifer wedi nodi pa mor resymol yw'r costau yma. Mae'r clwb, a arweinir gan Aimee a Katie, yn boblogaidd iawn gyda'r plant gan fod yna siwr gymaint o amrywiaeth weithgareddau ar gael. Yn aml mae rhieni yn dod i rannu sgiliau hefyd. Mae Mr Dewi Gwynne wedi bod i mewn yn rheolaidd yn datblygu sgiliau rygbi'r plant. Gydag unrhyw fenter newydd mae yna ychydig o risg ond ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn ffyddiog fod gan wasanaeth o'r fath ddyfodol ar gyfer plant y cylch. Nid oes raid i'r plant sy'n mynychu fod yn ddisgyblion yn Ysgol Pen-llwyn. Os am ragor o wybodaeth yna rhowch alwad i'r ysgol ar 01970 880277.










ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

y tincer
ytincer@googlemail.com

# Ysgol Penrhyn-coch




Tîm pêl-droed yr ysgol yn eu cit newydd. Prynwyd y cit gan arian a godwyd gan Mr Evans, Mr Lewis a Mr Roberts wrth redeg ras 10K Abertawe.

### Cogurdd

Llongyfarchiadau mawr i Florrie Lithgow a fu'n cystadlu yn rownd derfynol Rhanbarth Ceredigion. Bu'n rhaid iddi baratoi salad pasta, bisgedi ynghyd â smwddi i yfed. Er iddi baratoi bwyd arbennig o dda, yn anffodus ni aeth drwodd i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau mawr iddi.

### Bible Explorers

Yn ystod y tymor diwethaf bu disgyblion hŷn yr ysgol yn derbyn sesiynau wythnos ar gynnwys y Beibl gan Bible Explorers. Cafwyd Gwasanaeth arbennig i gyflwyno copi personol o'r Beibl fel rhan o'r prosiect i bob disgybl o flynyddoedd 2 i 6. Diolch iddynt am eu haelioni.

### Dathliadau 150 yr ysgol

Ym mis Medi byddwn yn dathlu pen blwydd arbennig yr ysgol yn 150 mlwydd oed. Er mwyn dathlu y pen blwydd mewn modd arbennig, rydym yn golygu trefnu cyfres o weithgareddau dros benwythnos ym mis Medi. Rydym wedi llunio pwyllgor i oruchwylio'r dathliadau a'r trefniadau. Gobeithiwn dynnu ar y Gymuned i fod yn rhan o'r trefniadau a'r dathliadau. Os hoffech gynorthwyo mewn unrhyw fodd, cysylltwch â'r ysgol.

### Celf a Chrefft yr Urdd

Yn yr Eisteddfod Celf a Chrefft Ranbarthol, llwyddwyd i ennill nifer o wobrau eleni eto. Diolch i'r criw gweithgar o rieni a ffrindiau brwd yr ysgol a ddaeth i weithio gyda'r disgyblion ar ôl ysgol ynghyd âg yn ystod gwyliau hanner tymor. Heb eu cefnogaeth ni fyddai chwarter y disgyblion yn cael yr un cyfleoedd. Bydd y buddugwyr yn symud ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llwyddwyd i ennill 5 gwobr Gyntaf, 5 ail a pedair trydydd mewn cystadlaethau amrywiol. Diolch i'r holl rieni, ffrindiau a pherthnasau i'r Ysgol a fuodd mewn yn helpu ac yn cynorthwyo y plant. Edrychwn ymlaen i weld y canlyniadau cenedlaethol!

### Eisteddfod Ysgol

Ar y 1af o Fawrth, cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol. Ein beirniaid eleni oedd Miss Elen Thomas a Miss Gwenllian Parry. Cafwyd rhagbrofion yn ystod y diwrnod cynt ynghyd â bore yr Eisteddfod, gyda 2 o bob llys yn symud drwyddo i'r Eisteddfod yn y prynhawn. Ar ddiwedd diwrnod hwyliog o gystadlu, lle gwelwyd pob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan unigol, Am y tro cyntaf ers o leiaf 10 mlynedd, Stewi a fu yn fuddugol. Enillwyd cadair yr Eisteddfod gan Cerys Ann Reeves. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled ac i'n beirniaid am eu gwaith arbennig, heb anghofio ein cyfeilyddes Heddwen Evans.

### Gymnasteg

Bu tîm gymnasteg yr ysgol yn cystadlu yn rownd derfynol Cystadleuaeth Cenedlaethol Gymnasteg yr Urdd. Bu'r tîm yn perfformio o flaen beirniad a grwpiau eraill. Ar ddiwedd y dydd, dyfarnwyd y tîm yn y trydydd safle. Llongyfarchiadau iddynt ar ennill y wobr. Diolch i Miss Cory am ei holl waith hyfforddi ac i'r rhieni a'r disgyblion am eu hymroddiad. Da iawn.

### Eisteddfod yr Urdd

Unwaith eto eleni gwelwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd. Llwyddodd parti Dawnsio Disgo yr ysgol i ennill drwodd i Eisteddfod Sir yr Urdd ynghyd â'r parti Dawnsio Gwerin. Llongyfarchiadau i'r ddau grwp a diolch i Miss Cory, Joe Scannell, Bethan Pierce a Bethan Evans am eu gwaith, a'u hamynedd, wrth weithio ar y paratoadau. Diolch hefyd i'r holl rieni am eu parodrwydd i fenthyg eu plant, ar ôl ysgol ynghyd âg yn ystod gwyliau hanner tymor. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir.

Yn ogystal, gwelwyd Côr yr ysgol yn ennill drwodd i'r Eisteddfod Sir ynghyd â'r Ensemble lleisiol, y Deuawd a'r parti Deulais. Llongyfarchiadau hefyd i'r parti llefaru am gystadlu yn erbyn 10 o bartion eraill!! Diolch i'r holl staff am eu gwaith yn hyfforddi'r disgyblion ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

### Cinio'r Gymuned

Yn ystod yr wythnosau ar ôl Eisteddfod yr Urdd, gwahoddwyd y disgyblion i gynnig adloniant yng nghinio'r gymuned yn Neuadd yr Eglwys. Braf oedd gweld cymaint yn bresennol. Bu côr yr ysgol wrthi yn diddanu ynghyd â phartion amrywiol. Diolch yn fawr iddynt am y gwahoddiad ac edrychwn ymlaen i fynd atynt i'w diddanu yn fuan iawn eto.

### Coedwig

Teithiodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yr ysgol i'r Goedwig yng Ngogerddan yn ddiweddar. Pwrpas yr ymweliad oedd i arsylwi ar natur wrth i'r dymor y gwanwyn ddatblygu. Cafwyd prynhawn sych ond oer yno. Yn anffodus, ni welwyd unrhyw fywyd gwyllt – efallai ei bod yn rhy oer (neu swnllyd!).

y tincer
ytincer@googlemail.com

# Ysgol Rhydypennau

### Eisteddfod Ysgol

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol eleni ar yr 27ain o Chwefror.  Yn dilyn wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu. Roedd hi'n ofynnol i bob unigolyn adrodd neu ganu neu chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniad yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y brif gystadleuaeth sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 5 a 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema'Dewi Sant'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig eleni eto, ond, ar ganiad y corn, Catrin Manley o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Catrin. Dyma ei cherdd:-

### Dewi Sant

Ar Fawrth y Cyntaf, cofiwn ni
Am ddyn arbennig ; Dewi.
Fe yw Nawddsant  Cymru fach,
Yn dilyn llwybr Iesu.

Addysgwyd yn Henfynyw
Gan Peulin yr athro dall;
Dwylo Dewi, rhyfedd wyrth,
Adfer golwg heb r'un gwall.

Sefydlu mynachlog yng Nglyn Rhosyn
Ond Boia'n gwrthwynebu;
Danfon milwr mawr a chas
Ond Dewi yn eu trechu.

Ymlaen at Bentref Brefi yr aeth,
Ond neb yn gweld yn glir;
Dechreuodd Dewi siarad yn ddoeth
A chodi wnaeth y tir.

I ddathlu cawn Eisteddfod
Canu a chwarae offerynnau;
Cawl cennin, gwisgo'n draddodiadol
A chanu'r anthem 'Hen wlad fy nhadau'.

### Catrin Manley

Ac ar ôl cystadlu brwd drwy'r dydd, roedd pwyntiau'r tri  thŷ yn agos iawn; ond Ystwyth a gariodd y dydd yn y pen draw. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb, sef Mrs Meinir Edwards a Mr Gareth William Jones yn ystod diwrnod yr Eisteddfod ac Eiry Dafydd am feirniadu Gwaith y Dosbarth.

### Dylunio'r 'Gadair'

Yn dilyn y drefn arferol, cynhaliwyd cystadleuaeth ychwanegol er mwyn dylunio cadair fach fel gwobr i enillydd Y Gadair. Eleni Benjamin Jones oedd yn fuddugol. Diolch i Mr Carwyn Lloyd Jones am greu dyluniad mor effeithiol eleni eto.

### Twmpath

Ar ddiwrnod olaf Chwefror, trefnwyd Twmpath yn Neuadd y Pentref i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, gwobrau, gwisg ffansi, raffl a digon o fwyd a diod. Diolch i Erwyd Howells, Bryan Jones a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu noson wych a chodi swm da o arian tuag at goffre'r ysgol.

### Clwb Cant

Yn ystod y Twmpath cyhoeddwyd enillwyr Fis Mawrth. Dyma'r canlyniad
1af - £25-Shane Evans,  Talerddig
2il-£15-Ray Quant,  Pine Croft. Llandre
3ydd-£10-Gerwyn Evans,  Uwch y Nant.

### Parêd Gŵyl Ddewi

Ymunodd 130 o blant yr ysgol â Pharêd Gŵyl Ddewi, Aberystwyth 2013. Ar ôl gorymdeithio o gloc y dre i Lys y Brenin, gwrandawodd y dorf ar yr adloniant o dan ofal Mr Lyn Ebenezer a Thywysydd y Parêd, Dr Meredydd Evans.

### Mynd am Dro

Cafodd plant yr uned Feithrin ymweliad pleserus â Choedwig Gogerddan yn ddiweddar er mwyn arsylwi ar arwyddion cynnar y gwanwyn.



Enillydd y Gadair Elen- Catrin Manley



Plant y Meithrin yn y goedwig





Parêd Gŵyl Ddewi



Mwynhau'r Twmpath

# Tasg y Tincer



Ela Thomas

Diolch i'r tri liwiodd llun Sam Tân y mis diwetha. Dyma'r enwau: Betsan Downes, Trefeurig, a Garan ac Ela Thomas, Caerdydd. Dy enw di, Ela, ddaeth o'r het. Llongyfarchiadau! Roedd lluniau'r tri ohonoch yn dangos Sam ar ras. Diolch am eu hanfon!

Dyna braf yw gweld arwyddion o'r gwanwyn yn ardal Y Tincer. Beth yw'ch hoff flodyn yr adeg hon o'r flwyddyn, tybed? Dwi'n hoff iawn o'r genhinen Bedr, ond dwi hefyd yn hoffi gweld eirlysiau, neu'r lili wen fach, yn y cloddiau. Falle fod rhai ohonoch wedi dysgu cân am y blodyn hwn:

O Lili Wen Fach, o ble daethost ti,
A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?
Sut y daethost ti allan trwy'r eira i gyd?
Nid oes blodyn bach arall i'w weld yn y byd.

Mae chwedl hyfryd am yr eirlys sy'n sôn am Efa, y wraig gyntaf yn y Beibl. Ydech chi wedi ei chlywed? Pan ddaeth y gaeaf cyntaf i'r byd, roedd gan Efa hiraeth ofnadwy am liwiau'r blodau a'r coed. Pan welodd un o'r angylion fod Efa'n drist, daliodd yr angel un bluen eira o'r awyr, anadlu drosti, ac yn y man ble syrthiodd y bluen eira ar y llawr, tyfodd eirlysiau o'r ddaear oer. Roedd Efa wedi dotio at y blodau tlws am eu bod yn dangos bod y gwanwyn ar ei ffordd, a bod bywyd newydd yn y tir ar ôl y gaeaf hir. Am stori dda!

Y mis hwn, beth am liwio llun o'r eirlysiau? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Ebrill 1af. Ta ta tan toc, a mwynhewch y gwyliau Pasg!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH
GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X

Rhif 357 | MAWRTH 2013